

Israddedig 2022



PRIFYSGOL  
BANGOR  
UNIVERSITY

EITHRIADOL

ERS 1884



BANGOR.AC.UK



PRIFYSGOL  
**BANGOR**  
UNIVERSITY

# YSGOGI'R EITHRIADOL

ERS 1884

ASTUDIAETHAU ISRADEDDIG





# CYNNWYS

|      |                          |     |                                  |
|------|--------------------------|-----|----------------------------------|
| 8-11 | CROESO I FANGOR          | 204 | UNDEB Y MYFYRWYR                 |
| 12   | DYDDIAU AGORED           | 208 | UNDEB MYFYRWYR<br>CYMRAEG BANGOR |
| 14   | BANGOR UNIGRYW           | 210 | LLETY YM MANGOR                  |
| 17   | BANGOR<br>GOSMAPOLITAIDD | 214 | CEFNOGI MYFYRWYR                 |
| 18   | BANGOR YSBRYDOLEDIG      | 215 | YSGOLORIAETHAU A<br>BWRARIAETHAU |
| 22   | BANGOR GROESAWGAR        | 216 | SUT I WNEUD CAIS                 |
| 26   | RHYDDID I DDATBLYGU      | 218 | GOFYNION MYNEDIAD                |
| 31   | YMCHWIL YM MANGOR        | 231 | MYNEGAI PWNC                     |
| 32   | BANGOR ATHROFAOL         |     |                                  |
| 34   | Y GYMRAEG YM MANGOR      |     |                                  |
| 36   | BLWYDDYN SYLFAEN         |     |                                  |
| 38   | CYRSIAU YM MANGOR        |     |                                  |





# CYFLE OEDD


Bydd wych ym Mangor!





ERS 1884

# EITHRI ADOL



Ysgogi'r eithriadol.



# CROESO I BRIFYSGOL BANGOR!



Diolch i chi am eich diddordeb yn ein prifysgol wych. Rwy'n siŵr eich bod chi'n gyffrous o fod yn ystyried astudio am radd, a dewis y brifysgol iawn yw'r cam cyntaf.

Mae Prifysgol Bangor yn lle arbennig ac yn gymuned lle cewch gefnogaeth i archwilio a datblygu'ch doniau a chynllunio'ch gyrfar ar gyfer y dyfodol.

Ym Mhrifysgol Bangor mae myfyrwyr wrth wraidd popeth a wnawn, ac rydym wedi buddsoddi mewn datblygu cyfleusterau academaidd, chwaraeon a chymdeithasol gwych sy'n ei wneud yn lle hyd yn oed yn fwy cyfeillgar a deniadol i astudio a byw ynddo. Efallai y bydd gennych ddi-ddordeb mewn gwybod bod Bangor yn yr Arolwg Cenedlaethol Myfyrwyr diweddaraf wedi cael sgôr uchel o ran boddhad myfyrwyr.

Mae gan Brifysgol Bangor gryfderau academaidd ac addysgu rhagorol, ac rwy'n falch iawn o'n gwobr aur yn y Fframwaith Rhagoriaeth Addysgu cenedlaethol. Mae hyn yn golygu bod ymchwil sydd gyda'r orau yn y byd, ac sy'n rhagorol yn rhyngwladol, yn sail i'n haddysgu o'r ansawdd uchaf, ac rwy'n credu

y bydd yn ddiddorol i chi. Mae bron pob un o'n hacademyddion ymchwil yn addysgu, gan sicrhau y byddwch yn elwa'n uniongyrchol o'r wybodaeth a grëir gan ein hymchwil.

Bydd bod yn rhan o'n cymuned ym Mhrifysgol Bangor hefyd yn eich galluogi i ennill profiad gwaith gwerthfawr, ac edrych y tu hwnt i'ch cwrs i gymryd rhan mewn ystod eang o gyfleoedd allgyrsiol a gwirfoddoli. Mae llawer o'n myfyrwyr yn dweud wrthym fod rhoi yn ôl i'r gymdeithas trwy wirfoddoli yn rhoi ystyr ychwanegol i'w profiad yma.

Mae hyn i gyd yn digwydd mewn ardal o harddwch naturiol eithriadol, ac yn cyfrannu at wneud y profiad ym Mhrifysgol Bangor yn gwbl unigryw.

Gobeithio y dewch chi i greu eich dyfodol yma gyda ni ym Mangor!

**Yr Athro Iwan Davies,  
Is-ganghellor**



ERS 1884



# CROESO I'R CAMPWS

## Croeso gan Undeb y Myfyrwyr

Ni yw Undeb Bangor, cartref bywyd myfyrwyr. Rydym yn galw ein hunain yn Undeb Bangor gan ein bod yn falch iawn o'n gwreiddiau Cymreig.

Mae undeb y myfyrwyr ar gyfer holl fyfyrwyr Bangor, dan arweiniad cynrychiolwyr myfyrwyr etholedig sy'n angerddol am gyfoethogi a gwella'ch profiad wrth astudio yma.

Rydym ni hefyd yn gweithio i sicrhau bod eich llais yn cael ei glywed, a bod y math o weithgareddau sydd eu hangen yn cael eu datblygu.

P'un a ydych am ymuno â chlwb, cymdeithas, project gwirfoddoli neu ddod yn gynrychiolydd cwrs academiaidd, nid yw myfyrwyr ym Mangor byth yn brin o gyfleoedd allgyrsiol, ac mae aelodaeth yn rhad ac am ddim.

Rydym yn edrych ymlaen at eich helpu i ddod o hyd i hobi newydd, cwrdd ag unigolion o'r un anian, gwella'ch cyflogadwyedd a gwneud gwahaniaeth. Croeso i Fangor!

**Henry Williams,**  
Llywydd, Undeb y Myfyrwyr

## Croeso gan Undeb Myfyrwyr Cymraeg Bangor

Fel y Brifysgol fwyaf Cymraeg a Chymreig yng Nghymru, rydym yn hynod o falch i allu cynnig bywyd Prifysgol hollol unigryw i'n myfyrwyr Cymraeg.

Mae UMCB wedi'i gynrychioli yn Undeb Bangor gan Lywydd UMCB, sydd yn swyddog sabothol llawn amser, sydd yna i sicrhau fod diwylliant Cymraeg y Brifysgol yn fyw ac yn iach. Mae gan UMCB Bwyllgor Gwaith hefyd, sydd wedi'i gynrychioli gan 13 o fyfyrwyr etholedig er mwyn helpu i drefnu digwyddiadau a gwneud penderfyniadau dros fyfyrwyr am sut caiff UMCB ei redeg.

Mae pob myfyriwr sydd yn medru sgiliau'r Gymraeg yn aelod awtomatig o UMCB, ac mae croeso ichi fynychu unrhyw ddigwyddiad sydd wedi ei drefnu gennym ni. Rydym hefyd yn trefnu trip rygbi blynyddol i Ddulyn neu i Gaeredin ac yn yn mynychu'r Ddawns ac Eisteddfod Ryng-golegol pob blwyddyn.

Rydyn ni'n disgwyl i'mlaen i'ch croesawu chi yma i Fangor!

**Iwan Evans,**  
Llywydd UMCB

Henry Williams (chwith) ac  
Iwan Evans (dde).





# AGORWCH EICH MEDDWL

DYDDIAU AGORED YM MANGOR

**DYDD SADWRN, MEHEFIN 26**  
**DYDD SADWRN, GORFFENAF 10**  
**DYDD SUL, HYDREF 10**  
**DYDD SUL, HYDREF 31**  
**DYDD SADWRN, TACHWEDD 20**

[WWW.BANGOR.AC.UK/DIWRNODAGORED](http://WWW.BANGOR.AC.UK/DIWRNODAGORED)










# BANGOR UNIGRYW

Mae llawer o resymau dros astudio ym Mhrifysgol Bangor. Maent yn amrywio o ragoriaeth academaidd, boddhad myfyrwyr at amgylchedd cyfeillgar mewn lleoliad ysblennydd; mae gan Fangor rywbeth at ddant pawb.

- Ymysg y 10 uchaf yn y Deyrnas Unedig am Foddhad Myfyrwyr (*Complete University Guide 2021*)
  - Ail yn y Deyrnas Unedig am glybiau a chymdeithasau (*WhatUni Student Choice Awards 2020*)
- Ymysg y 10 uchaf yn y Deyrnas Unedig am Foddhad Addysgu (tabl cynghrair prifysgolion *The Guardian 2020*)
- Ymysg y 15 uchaf yn y Deyrnas Unedig am Brofiad Myfyrwyr (*The Times and Sunday Times Good University Guide 2020*).
- Ymysg yr 20 uchaf yn y Deyrnas Unedig am Foddhad gyda'r Cwrs (tabl cynghrair prifysgolion *The Guardian 2020*)
  - Gwobr Aur am Ragoriaeth mewn Addysgu (TEF, 2017)







# BANGOR GOSMAPOLITAIDD

CYMUNED FYD-EANG

Gyda dros 10,000 o fyfyrwyr o bob cwr o'r byd, mae Bangor yn cynnig profiad amlddiwylliannol, amlieithog.

Mae rhagoriaeth Prifysgol Bangor mewn ymchwil ac addysgu yn denu myfyrwyr a staff o bedwar ban byd i'r ddinas. Mae hyn yn cynnig cyfle i'n myfyrwyr gydweithio a chymdeithasu â phobl o bob rhan o'r byd.

Mae canolfan Pontio yn adeilad pwysig sy'n cysylltu Prifysgol Bangor a'r gymuned o'i chwmpas. Yn ogystal â bod yn lleoliad i Undeb y Myfyrwyr, mae Pontio yn gartref i sinema, theatr, darlithfeydd, a llefydd i fwyta.

Academi, y clwb myfyrwyr swyddogol, yw'r lle i fynd i gymdeithasu gyda'r nos. Mae Bar Uno, ym mhentref

myfyrwyr Ffriddoedd, a Barlow's ym mhentref myfyrwyr y Santes Fair, yn lleoliadau poblogaidd eraill i fyfyrwyr.

"Mae Bangor mor amrywiol o ran ethnigrwydd, sy'n dda iawn oherwydd eich bod chi'n cwrdd â phobl na fyddech chi o reidrwydd yn cwrdd â nhw mewn lleoedd eraill. Roeddwn i eisiau lle mwy hamddenol na Llundain, ac mae Bangor yn newid braf o fywyd y ddinas i mi. Rydw i'n mwynhau'n fawr iawn yma."

**Abraham Makanjuola,**  
yn astudio Ffrangeg ac Economeg  
gyda Phrofiad Rhyngwladol



# BANGOR YSBRYDOLEDIG - LLE I FYW A DYSGU

## AMGYLCHEDD CYNNES A CHYFEILLGAR

Mae llawer o'n myfyrwyr yn dewis Bangor oherwydd natur fach a chyfeillgar y Brifysgol a'r ddinas.

Mae'r Brifysgol yn cynnig amgylchedd hamddenol i fyfyrwyr gymdeithasu, dysgu a gwneud ffrindiau oes.

### Y ddinas a'r pier

Mae'r rhan fwyaf o'n hadeiladau a'n neuaddau taith gerdded fer o ganol y ddinas lle byddwch chi'n dod o hyd i amrywiaeth o siopau cadwyn cenedlaethol a busnesau lleol llai. Mae Pier Bangor yn daith gerdded fer i ffwrdd lle gallwch chi gymryd peth amser i ffwrdd o'ch astudiaethau i ymlacio a blasu'r sgons gorau yng Nghymru!

### Anturiaethau rhwng darlithoedd

Nid oes dwywaith amdani fod y lleoliad, y golygfeydd a'r ardal gyfagos ymysg y rhesymau fod llawer o'n myfyrwyr yn dewis

dod yma. Un peth sy'n sicr, mae hyn i gyd ar stepen eich drws yn ychwanegu dimensiwn gwahanol i fywyd myfyriwr.

### Parc Cenedlaethol Eryri

Mae atyniadau niferus Eryri ar gyfer selogion chwaraeon yn amlwg. Hyd yn oed os nad ydych yn ymddiddori mewn gweithgareddau awyr agored, mae yna ddigon i'w archwilio yn yr ardal gyfagos fel trefi hanesyddol Biwmares, Conwy a Chaernarfon neu bentrefi hyfryd Beddgelert a Betws-y-Coed.

### Traethau hyfryd

Mae'r traethau syfrdanol gerllaw ar Ynys Môn yn fannau poblogaidd i dorheulo, nofio a mynd am y diwrnod gyda ffrindiau.







# YSGOGI'R EITHRIADOL



RHYDDID I FEDDWL



## Cyfleusterau chwaraeon

Mae prif Ganolfan Chwaraeon y Brifysgol, Canolfan Brailsford, yng nghanol Ffriddoedd, prif bentref y myfyrwyr.

Ymhlith y cyfleusterau chwaraeon dan do mae:

- campfa ddeulawr o'r radd flaenaf
- ardal hyfforddi swyddogaethol ac Olympaidd 9 plattform
- stiwdios aerobeg a beicio
- wal ddringo a chlogfeini aml-lwybr
- Y Dôm – cyfleuster tennis a phêl-rwyd
- cyfleusterau ffensio a saethyddiaeth dan do ar Safle'r Normal
- ystafell ffitrwydd ym mhentref myfyrwyr y Santes Fair

Mae'r cyfleusterau awyr agored yn cynnwys:

- caeau synthetig â llif-oleuadau ar gyfer pêl-droed, rygbi a hoci
- caeau glaswellt naturiol ar gyfer pêl-droed Americanaidd, quidditch, lacrosse a ffrisbi eithafol
- caeau awyr agored a thrac athletau yn Nhreborth
- ardal gemau gyda chyfleusterau ar gyfer pêl-droed, pêl-fasged a gemau awyr agored ym mhentref myfyrwyr y Santes Fair.

Rydym yn gweithio mewn partneriaeth â Snowdonia Watersports, canolfan weithgareddau awyr agored ar lan Llyn Padarn sy'n darparu canolfan ar gyfer rhaglen rwyfo'r Brifysgol a chlybiau gweithgareddau dŵr/mynydd eraill.

Mae cyfleusterau lleol eraill yn cynnwys pwll nofio 25 metr gyda chyfleusterau plymio uchel ym Mangor, y Ganolfan Awyr Agored

Genedlaethol (Plas y Brenin), a Phlas Menai, Canolfan Awyr Agored Genedlaethol Chwaraeon Cymru.

## Gwasanaeth Llyfrgell ac Archifau

- Mae gennym bedair llyfrgell sy'n cynnig amrywiaeth o amgylcheddau astudio braf gan gynnwys manau gweithio cydweithredol, ystafelloedd cyfarfod a manau tawel i astudio.
- Cewch fynd at yr adnoddau electronig ar y campws ac oddi arno 24/7.
- Mae gennym un o'r archifau prifysgol mwyaf nid yn unig yng Nghymru ond hefyd drwy holl wledydd Prydain.
- Yn gysylltiedig â'r archifau mae casgliadau arbennig o lyfrau printiedig prin.

## Adnoddau pwnc-arbenigol

Mae gennym ystod o adnoddau dysgu eraill gan gynnwys:

- Canolfan laith amlygyfrwng
- llong ymchwil fordwyol gwerth £3.5m
- acwaria dŵr croyw, dŵr tymherus a throfannol
- amgueddfa byd natur
- sganiwr MRI £1.5M
- Gardd Fotaneg Treborth ar gyrion y Fenai – mae pob rhan o deyrnas y planhigion yn cael ei chynrychioli ar draws ei 45 erw, ac mae hefyd yn gartref i boblogaeth y wiwer goch frodorol a nythfa crehyrod gleision.
- fferm lle gwneir ymchwil i gnydau, amaethgoedwigaeth a gwyddorau'r amgylchedd.





# BANGOR GROESAWGAR

WYTHNOS GROESO, Y GYMUNED,  
CEFNOGAETH MYFYRWYR.

Rydyn ni'n wirioneddol falch o'n cymuned gyfeillgar a chroesawgar o fyfyrwyr a staff ym Mhrifysgol Bangor, yn ogystal â'n hamgylchedd cefnogol o'r eiliad rydych chi'n cysylltu â ni.



Er mwyn eich helpu i ymgartrefu ym mywyd y Brifysgol, cwrdd â phobl newydd a gwneud i Fangor deimlo fel cartref, rydym yn trefnu Wythnos Groeso i fyfyrwyr newydd. Mae'r wythnos yn llawn dop o weithgareddau i sicrhau eich bod chi'n dod i wybod be' ydi be', yn setlo ac yn gwneud ffrindiau. Byddwch yn mynd i sesiwn groeso swyddogol i'r Brifysgol a'ch Ysgol academiaidd. Bydd Undeb y Myfyrwyr, UMCB a Campws Byw hefyd yn trefnu amryw o weithgareddau llawn hwyl trwy gydol yr wythnos i sicrhau nad

oes gennych amser i ddiflasu neu hiraethu am adref.

Mae gennym hefyd dîm o Arweinwyr Cyfoed sy'n fyfyrwyr cyfredol ym Mangor sy'n gwirfoddoli i fod wrth law i'ch helpu chi i gael eich traed danoch yn gyflym, gyda'ch astudiaeth ac yn gymdeithasol. Nhw yw'r bobl orau i'ch helpu chi i setlo, wedi'r cyfan, nid oes llawer o amser ers iddyn nhw fod yn fyfyrwyr newydd eu hunain, felly byddan nhw'n gwybod yn union sut rydych chi'n teimlo.

"Mae hi'n hawdd setlo mewn i fywyd ym Mangor gyda chefnogaeth yr Arweinwyr Cyfoed a'r holl weithgareddau. Mae'r cymdeithasau wedi bod yn ffordd dda i mi wneud ffrindiau newydd."





## MANON WYN OWEN

PEIRIANNEG ELECTRONIG

"Mae Bangor yn lle gwych i astudio... Mae gwasanaethau'r Brifysgol yn ddefnyddiol, er enghraifft, y gwasanaethau myfyrwyr, sydd yn fodlon helpu beth bynnag yw'r broblem. Mae'r darlithwyr ym Mangor ar gael bob tro i gynnig cymorth os oes unrhyw broblem efo modiwl neu waith cwrs."



## KIRSTY LEWIS

CYMRAEG, THEATR, A'R CYFRYNGAU

"Dewisais astudio ym Mangor oherwydd y gymdeithas Gymraeg sydd yma. Yma ym Mangor rydw i'n siarad Cymraeg trwy'r dydd, pob dydd! Mae'r gymdeithas Gymraeg glos sydd yma, ac yn Neuadd JMJ yn benodol, mor unigryw. Mae hyn yn sicr wedi siapio fy mhrofiad i o fod yn y Brifysgol."





# RHYDDID I DDATBLYGU

CYFLOGAETH, BLWYDDYN RYNGWLADOL,  
BLWYDDYN AR LEOLIAD.



## Cyflogadwyedd

Mae ein hystod eang o raglenni datblygiad personol a gyrfaol yn rhoi pob cyfle i chi baratoi at y dyfodol a sicrhau dechrau rhagorol i'ch gyrfa.

O'r eiliad y byddwch chi'n cyrraedd, bydd y Gwasanaeth Cyflogadwyedd yno i'ch cynghori a darparu gwybodaeth ymarferol. Byddant hyd yn oed yn parhau i'ch cefnogi am dair blynedd ar ôl graddio.

Er mwyn helpu i wella'ch cyflogadwyedd, mae'r gefnogaeth a'r mentrau gyrfaedd a gynigir yn cynnwys:

- Rhaglen trwy gydol y flwyddyn o arweiniad unigol, gweithdai a sgysiau gan gyflogwyr
- Cynllun interniaeth â thâl yn adrannau academiaidd a gwasanaethau'r Brifysgol
- Y Cynllun Arweinwyr Cyfoed – a fydd yn eich helpu i ddatblygu sgiliau rhyngpersonol a threfniadol y mae cyflogwyr yn eu gwerthfawrogi
- Cyfle i ehangu'ch gorwelion trwy ddysgu iaith newydd mewn dosbarth nos
- Projectau gwirfoddoli sy'n cael eu cynnal gan Undeb y Myfyrwyr, yn amrywio o brojectau amgylcheddol i brojectau chwaraeon a chymdeithasol
- Byddwch Fentrus – rhaglen i ddatblygu eich sgiliau menter ac entrepreneuriaeth
- Gwobr Cyflogadwyedd Bangor – enillwch gydnabyddiaeth am eich gweithgareddau allgyrsiol (e.e. gwirfoddoli, clybiau a chymdeithasau, gwaith rhan-amser, ac ati)

[www.bangor.ac.uk/gyrfaedd](http://www.bangor.ac.uk/gyrfaedd)

## Profiad Rhyngwladol – Ewch y Tu Hwnt i Fangor

Yn dibynnu ar eich cwrs, efallai y gallwch chi gymryd Blwyddyn Profiad Rhyngwladol lle byddwch chi'n astudio neu'n gwneud lleoliad gwaith neu interniaeth dramor yn ystod eich gradd.

Mae yna amrywiaeth eang o gyrchfannau i'w dewis o bob cwr o'r byd ac mae astudio/gweithio dramor yn gyfle gwych i ennill profiad gydag arbenigwyr, gweld ffordd wahanol o fyw ac ehangu eich gorwelion. Gyda phrofiad rhyngwladol o'r math hwn, byddwch chi wir yn gwella'ch rhagolygon gyrfa.

[www.bangor.ac.uk/cy/astudiodramor](http://www.bangor.ac.uk/cy/astudiodramor)

"Ym Mhrifysgol Bangor, rwyf wedi cael cyfleoedd i actio ar lwyfannau Pontio, yn ogystal â gweithio o flaen a thu ôl i gamerâu gyda gwahanol gynrychiadau. Trwy rwydweithio â phobl y deuthum i'w hadnabod drwy'r Brifysgol, rwyf wedi cael fy nghyflogi i weithio gyda BBC Scotland, Hansh, S4C, a chyfres boblogaidd ar Amazon, yn ogystal ag is-gyfarwyddo sioe gerdd Theatr yr Urdd."

**Lowri Cêt Jones,**  
Cyn-fyfyriwr Cyfryngau gyda Theatr a Pherfformio





### Blwyddyn ar Leoliad

Mae'r Blwyddyn ar Leoliad yn gyfle gwych i chi ehangu eich gorwelion a datblygu sgiliau a chysylltiadau gwerthfawr trwy weithio gyda sefydliad sy'n berthnasol i bwnc eich gradd.

Byddwch chi'n mynd ar y Flwyddyn ar Leoliad ar ddiwedd yr ail flwyddyn, ac fel rheol byddech chi'n treulio 10-12 mis gydag un neu fwy o ddarparwyr lleoliadau.

Bydd disgwyl i chi ddod o hyd i leoliad sy'n addas i'ch gradd, a'i drefnu, ac mi gewch chi gefnogaeth lawn gan aelod pwrpasol o staff yn eich Ysgol academiaidd a Gwasanaethau Cyflogadwyedd y Brifysgol.

[www.bangor.ac.uk/cy/blwyddynlleoliad](http://www.bangor.ac.uk/cy/blwyddynlleoliad)



"Mae gweithio mewn ysgol yn Awstralia wedi fy helpu i ddatblygu sgiliau fel rheoli amser, annibyniaeth, a dyfalbarhad. Mi wnes i wneud ffrindiau gydag aelodau eraill o staff oedd yn gweithio â mi yn yr ysgol ac rwy'n dal yn ffrindiau â nhw."



**Danial Tomos Jones,**  
Cyn-fyfyriwr Gwyddor Chwaraeon,  
Iechyd ac Ymarfer





# BANGOR CHWILFRYDIG

## Y M C H W I L

**£128M o gyllid ymchwil cystadleuol  
allanol dros 5 mlynedd\***

\*(2013/14 to 2017/18)

Mae ymchwil wrth galon Prifysgol Bangor ac rydym yn y 40 Uchaf yn y Deyrnas Unedig am Ansawdd Ymchwil\*\*.

Mae hyn yn bwysig i'n cymuned myfyrwyr israddedig gan ei fod yn golygu eu bod wedi'u hamgylchynu gan staff a myfyrwyr sy'n cynnal ymchwil sydd gyda'r orau yn y byd, ac felly mae eu haddysgu a'u dysgu yn berthnasol i'r dyfodol.

Mae'r cysyniad bod ein gwaith yn cael effaith ar fywydau pobl yng Nghymru, y Deyrnas Unedig ac yn fyd-eang wrth wraidd ein hymchwil. Dyma fu ein hethos canolog ers i'r Brifysgol agor ei drysau gyntaf ym 1884. Sefydlwyd Prifysgol Bangor gan y gymuned leol i "wasanaethu anghenion cenedlaethau'r dyfodol".

(\*\*ac eithrio sefydliadau arbenigol a phrifysgolion oedd yn cyflwyno mewn un uned asesu yn unig); (Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil, 2014)



# BANGOR ATHROFAOL

## AMRYWIOL, RHYNGDDISGYBLAETHOL.

Mae ein Prifysgol eithriadol yn cynnwys tri Choleg, pob un â chyfres wych o feysydd pwnc amrywiol ac opsiynau rhyngddisgyblaethol sy'n galluogi i fyfyrwyr ddysgu a datblygu.

### Coleg y Celfyddydau, Dyniaethau a Busnes

Athroniaeth a Chrefydd  
Cerddoriaeth  
Cyfrifeg, Bancio a Chyllid  
Cymdeithaseg a Pholisi Cymdeithasol  
Cymraeg ac Astudiaethau Celtaidd  
Drama, Theatr a Pherfformio  
Economeg  
Ffilm, Cyfryngau a Newyddiaduraeth  
Gwleidyddiaeth  
Hanes, Archaeoleg a Threftadaeth  
Iaith Saesneg  
Ieithoedd Modern  
Ieithyddiaeth  
Llenyddiaeth Saesneg  
Plismona  
Rheoli Busnes a Marchnata  
Troseddeg a Chyfiawnder Troseddol  
Y Gyfraith  
Ysgrifennu Creadigol ac Ysgrifennu  
Proffesiynol

### Coleg Gwyddorau'r Amgylchedd a Pheirianeg

Bioleg  
Bioleg Môr  
Cadwraeth  
Coedwigaeth  
Cyfrifiadureg  
Daeareg  
Daearyddiaeth  
Gwyddor Data  
Gwyddorau'r Amgylchedd  
Gwyddorau'r Eigion  
Peirianeg Electronig  
Swoleg

### Y Coleg Gwyddorau Dynol

Addysgu  
Astudiaethau Plentynod ac  
Ieuencid  
Bydwreigiaeth  
Dylunio Cynnyrch  
Gwyddorau Chwaraeon  
Gwyddorau Meddygol  
Iechyd a Gofal Cymdeithasol  
Iechyd ac Ymarfer  
Meddygaeth i Raddedigion  
Nyrsio  
Seicoleg  
Radiograffeg







## Y GYMRAEG YM MANGOR

**Mae calon Prifysgol Bangor yn curo'n Gymraeg. Mae'r iaith i'w gweld a'i chlywed ym mhobman ac yn lliwio pob rhan o fywyd a gwaith y Brifysgol.**

Fel myfyriwr ym Mangor, gallwch fwynhau profiad Cymraeg llawn. Cewch astudio yn Gymraeg, cewch eich cefnogi yn Gymraeg a chewch fwynhau'r cyfan sydd gan fywyd prifysgol i'w gynnig drwy'r iaith.

Mae parchu ieithoedd a diwylliannau yn ganolog i werthoedd Prifysgol Bangor ac mae dros hanner ein myfyriwr yn siarad mwy nag un iaith. Mae Neuadd JMJ yn ganolbwynt cymdeithasol Cymraeg i fyfyrwr o bob cwr o Gymru.

### Astudio Drwy'r Gymraeg

Mae Prifysgol Bangor yn cynnig mwy o fodiwlaau a chyrtsiau drwy'r Gymraeg nag unrhyw brifysgol arall. O Addysg i Athroniaeth, o Gerddoriaeth i'r Gyfraith, o feysydd lechyd i leithoedd, o Seicoleg i Swoleg, cewch gyfleoedd i astudio drwy'r Gymraeg ar y rhan fwyaf o'n cyrsiau a derbyn addysg o'r safon uchaf. Ym Mangor, mae'r dewis i astudio drwy'r Gymraeg yn cael ei gefnogi gan bob math o wasanaethau, yn cynnwys:

- cefnogaeth i ddatblygu sgiliau iaith ac astudio yn y Gymraeg;
- meddalwedd i'ch helpu wrth ysgrifennu yn Gymraeg;
- cefnogaeth gyda thermau;
- gwasanaeth cyfieithu llawn.

### Pam Astudio Drwy'r Gymraeg?

Ym Mangor, mae 9 o bob 10 myfyriwr sy'n siarad Cymraeg yn astudio rhywfaint o'u cwrs drwy'r Gymraeg. Mae yna lawer o resymau pam y mae cymaint yn dewis gwneud hynny:

- mae galw mawr am sgiliau dwyieithog mewn pob math o swyddi;
- mae cyflogau swyddi dwyieithog yn uwch ar gyfartaledd;
- mae ysgoloriaethau a bwrsariaethau ar gael am astudio rhan o'ch gwrs drwy'r Gymraeg ([www.colegcymraeg.ac.uk](http://www.colegcymraeg.ac.uk));
- mae gallu ymdrin â'ch pwnc mewn dwy iaith yn cryfhau eich gafael arno.

"Mae'r Gymraeg yn bwysig iawn i mi ac mae astudio ym Mangor yn rhoi'r cyfle i mi fanteisio ar ddefnyddio'r Gymraeg wrth astudio, boed hynny mewn amgylchedd clinigol neu yn fy ngwaith academaidd."

 **Beca Dafydd,**  
sy'n astudio Bydwreigiaeth





# RHYDDID I GREU

BLWYDDYN SYLFAEN



## Rhaglen Blwyddyn Sylfaen

Mae rhaglen y Flwyddyn Sylfaen yn gyflwyniad rhagorol i astudio pwnc yn y brifysgol a bydd yn rhoi'r wybodaeth, y sgiliau a'r hyder sydd eu hangen arnoch i astudio ar lefel gradd.

Mae cyrsiau Blwyddyn Sylfaen yn ddelfrydol i'r rhai nad oes ganddynt mo'r cymwysterau gofynnol ar gyfer y cwrs lefel gradd, neu'r rhai sydd am fynd yn ôl i addysg.

Yn ystod y Flwyddyn Sylfaen, byddwch yn canolbwyntio ar ddatblygu eich sgiliau academaidd a gwybodaeth bwnc-benodol.

Ar ôl cwblhau'r Flwyddyn Sylfaen yn llwyddiannus, byddwch yn symud ymlaen i flwyddyn gyntaf y cwrs lefel gradd perthnasol.

[www.bangor.ac.uk/cy/sylfaen](http://www.bangor.ac.uk/cy/sylfaen)







# CYRSIAU

|     |  |     |  |
|-----|--|-----|--|
| 40  | BIOLEG A BIOTECHNOLEG                        | 132 | GWYDDORAU CYMDEITHASOL A PHLISMONA           |
| 44  | DAEARYDDIAETH A'R AMGYLCHEDD                 | 140 | GWLEIDYDDIAETH, ATHRONIAETH A CHREFYDD       |
| 52  | SWOLEG                                       | 144 | HANES AC ARCHAEOLEG                          |
| 60  | GWYDDORAU'R EIGION                           | 152 | IAITH SAESNEG AC IEITHYDDIAETH               |
| 70  | CYFRIFIADUREG                                | 160 | LLENYDDIAETH SAESNEG AC YSGRIFENNU CREADIGOL |
| 78  | PEIRIANNEG ELECTRONIG A DYLUNIO CYNNYRCH     | 168 | CYMRAEG                                      |
| 84  | GWYDDORAU CHWARAEON AC YMARFER               | 178 | IEITHOEDD A DIWYLLIANNAU MODERN              |
| 90  | SEICOLEG                                     | 186 | FFILM, NEWYDDIADURAETH A'R CYFRYNGAU         |
| 96  | GWYDDORAU IECHYD A MEDDYGOL                  | 196 | CERDDORIAETH                                 |
| 106 | ADDYSG, ASTUDIAETHAU PLENTYNDOD AC IEUENCTID |     |  |
| 112 | CYFRIFEG, CYLLID AC ECONOMEG                 |     |  |
| 118 | BUSNES, MARCHNATA A RHEOLAETH                |     |  |
| 124 | Y GYFRAITH                                   |     |  |

Ewch i'r wefan i weld y modiwlau cyfrwng Cymraeg sydd ar gael ar ein cyrsiau ar hyn o bryd.





# BIOLEG A BIOTECHNOLEG

Bydd wych ym Mangor!





LLWYBRAU A RHESTRAU CYRSIAU

## BIOLEG BIOLEG GYDA BIOTECHNOLEG

## BIOLEG

BSc (Anrh) / MBiol (Anrh)

### Beth yw natur y cwrs?

Rhoddir pwyslais cryf ar agweddau esblygiadol, ecolegol ac amgylcheddol ac mae digon o gyfle i ddilyn agweddau cymhwysol ar fioleg ac i ddsygu am brosesau a mecanweithiau biolegol sylfaenol. Gwnawn ddefnydd helaeth o'r amrywiaeth eithriadol o gynefinoedd daearol a dyfrol yn lleol yn ystod cyrsiau maes a dosbarthiadau ymarferol. Mae ein cyrsiau'n unigryw oherwydd ein bod yn addysgu bioleg anifeiliaid cyfan, yn ogystal ag ecoleg a biowyddorau moleciwlaidd, cellog a genetig.

### Pam dewis Bangor?

- Cyfleusterau rhagorol: gardd fotaneg; amgueddfa byd natur sy'n cynnwys casgliad cynhwysfawr o ddeunydd infertebratau a fertebratau ac acwaria môr a dŵr croyw helaeth; a Labordy Robert Edwards ar gyfer dysgu bioleg celloedd a bioleg foleciwlaidd.
- Mae ein lleoliad yn lle delfrydol i astudio bioleg – mae'r gwahanol fathau o bridd, hinsawdd a thopograffeg yn darparu nifer o gynefinoedd amrywiol, pob un o fewn cyrraedd hwylus ar gyfer astudiaethau maes.
- Mae'r cyflwynydd teledu Steve Backshall yn rhan o'n tîm addysgu.

### Pynciau Enghreifftiol

Yn y drydedd flwyddyn byddwch yn dewis o blith ystod eang o feysydd pwnc o fioleg amgylcheddol i fioleg feddygol. Cewch wneud gwaith maes a gwaith labordy yn ystod pob un o'r tair blynedd.

Rhaglen israddedig estynedig yw'r radd MBiol 4 blynedd sy'n eich galluogi i raddio gyda gradd Meistr ar ddiwedd y Blwyddyn 4. Mae'r flwyddyn MBiol yn cynnig project ymchwil estynedig, gan weithio'n agos gyda staff arbenigol a derbyn hyfforddiant sgiliau ymchwil uwch.

## BIOLEG GYDA BIOTECHNOLEG

BSc (Anrh) / MBiol (Anrh)

### Beth yw natur y cwrs?

Mae biotechnoleg wedi cael effaith sylweddol ar fywyd y ddynoliaeth – mae'n ein galluogi i fanteisio ar allu eplesol micro-organebau i gynhyrchu cynhyrchion bwyd megis bara, caws, cwrw a gwin. Mae biotechnoleg yn cynnig cynhyrchion a thechnolegau arloesol i frwydro yn erbyn afiechydon, lleihau ein heffaith ar yr amgylchedd, darparu ynni glanach, a chynhyrchu prosesau diwydiannol glanach a mwy diogel ac effeithlon. Bydd y radd hon yn eich grymuso i fynd i'r afael â materion byd-eang mewn modd arloesol i gynnig gwellhad, tanwydd a bwyd i'r byd.

### Pam dewis Bangor?

- Mae'r cyflwynydd teledu Steve Backshall yn rhan o'n tîm addysgu.
- Cyfleusterau: dau labordy ymchwil microbiolog gyda'r offer diweddaraf sy'n cynnwys y Ganolfan Biotechnoleg Amgylcheddol, gardd fotaneg; amgueddfa byd natur sy'n cynnwys casgliad cynhwysfawr o ddeunydd infertebratau a fertebratau; ac acwaria môr a dŵr croyw helaeth.
- Mae ein lleoliad yn darparu gwahanol fathau o bridd, hinsawdd a thopograffeg, ac amrywiaeth o gynefinoedd.

### Pynciau Enghreifftiol

Mae'r cwrs Meistr Bioleg (Biotechnoleg) yn rhaglen israddedig estynedig sy'n caniatáu i fyfyrwyr raddio naill ai gyda BSc (Anrh.) ar ddiwedd y drydedd flwyddyn neu gyda gradd Meistr ar ddiwedd y bedwaredd flwyddyn. Rhaid cyrraedd safon ddiogel uchel ar ddiwedd Blwyddyn 2 i drosglwyddo i'r flwyddyn Meistr ar ôl cwblhau Blwyddyn 3.



**Cod UCAS**  
BSc: C100  
MBiol: C101

**Blwyddyn Sylfaen**  
Oes

**Blwyddyn Lleoliad**  
Oes

**Blwyddyn Profiad**  
Rhyngwladol  
Oes



**Tariff Mynediad**  
**Dynodol:**  
BSc: 80-112  
MBiol: 96-128

**Hyd y Cwrs:**  
3-5 mlynedd

gyda blwyddyn  
rhyngwladol/  
lleoliad/sylfaen



**Campws**  
Bangor

**Opsiynau cyfrwng**  
Cymraeg  
Oes

**Opsiynau i ddysgu**  
iaith arall  
Oes



**Cod UCAS**  
BSc: C511  
MBiol: C510

**Blwyddyn Sylfaen**  
Oes

**Blwyddyn Lleoliad**  
Oes

**Blwyddyn Profiad**  
Rhyngwladol  
Oes



**Tariff Mynediad**  
**Dynodol:**  
BSc: 80-112  
MBiol: 96-128

**Hyd y Cwrs:**  
3-5 mlynedd

gyda blwyddyn  
rhyngwladol/  
lleoliad/sylfaen



**Campws**  
Bangor

**Opsiynau cyfrwng**  
Cymraeg  
Oes

**Opsiynau i ddysgu**  
iaith arall  
Oes





# DAEARYDDIAETH A'R AMGYLCHEDD


Bydd wych ym Mangor!





LLWYBRAU A RHESTRAU CYRSIAU

ECOLEG DAEAR A MÔR GYMHWYSOL  
 GWYDDORAU'R AMGYLCHEDD  
 CADWRAETH AMGYLCHEDDOL  
 CADWRAETH GYDA CHOEDWIGAETH  
 COEDWIGAETH  
 CADWRAETH A RHEOLI COETIROEDD  
 DAEARYDDIAETH\*  
 CADWRAETH BYWYD GWYLLT



\*Mae'r BA, BSc ac MGeog wedi'u hachredu gan y Gymdeithas Ddaearyddol Frenhinol.

Mae'r graddau BSc ac MGeog wedi'u hachredu'n broffesiynol gan Sefydliad Gwyddorau'r Amgylchedd.

## ECOLEG DAEAR A MÔR GYMHWYSOL

BSc (Anrh)

### Beth yw natur y cwrs?

Bydd y radd hon yn eich dysgu i gymhwyso gwyddorau ecolegol i anghenion go iawn rheolaeth gynaliadwy a chadwraeth adnoddau naturiol ar draws ecosystemau daear a môr. Mae syniadau cyfredol ym maes rheolaeth amgylcheddol yn cydnabod yr angen am arferion cyfannol sy'n cydnabod bod cydberthynas rhwng amgylcheddau daearol a dyfrol. Byddwch yn astudio ecoleg sylfaenol ac yn datblygu sgiliau i'ch galluogi i asesu effaith penderfyniadau polisi ar reolaeth.

### Pam dewis Bangor?

- Mae'r cyflwynydd teledu Steve Backshall bellach yn rhan o'n tîm addysgu.
- Y cwrs hwn yw'r unig un o'i fath a gynigir yn y Deyrnas Unedig.
- Mae ein lleoliad yn ddelfrydol ar gyfer gwaith maes – rydym ychydig fetrau o'r môr, ac mae mynyddoedd Parc Cenedlaethol Eryri'n gefnlen ysblennydd i'r ddinas.
- Ein cysylltiadau agos â chyrff amgylcheddol e.e. Cymdeithas Eryri, Cyfoeth Naturiol Cymru ac Ymddiriedolaeth Ornitholeg Prydain.

### Pynciau Enghreifftiol

Byddwch yn cymryd ymarfer cadwraeth fel modiwl orfodol ac yn gweithio gyda goruchwyliwr i lunio a chyflawni darn o waith ymchwil gwreiddiol.

Mae amrywiaeth eang o feysydd astudio gan gynnwys ecoleg coedwigoedd, polisi amgylcheddol, ecosystemau dŵr croyw, ecoleg bywyd gwylt a chadwraeth, ecoleg coedwigoedd, ornitholeg, primatoleg, agweddau dynol cadwraeth.

Bydd gennych yr opsiwn o fynd ar gwrs maes i Tenerife am wythnos neu ar gwrs maes trofannol hirach yn Affrica.

Wedi ei achredu gan Sefydliad Gwyddorau'r Amgylchedd



Cod UCAS  
C180

Blwyddyn Sylfaen  
Oes

Blwyddyn Lleoliad  
Oes

Blwyddyn Profiad  
Rhyngwladol  
Oes



Tariff Mynediad  
Dynodol:  
80-120

Hyd y Cwrs:  
3-4 blynedd  
gyda blwyddyn  
rhyngwladol/  
lleoliad/sylfaen



Campws  
Bangor

Opsiynau cyfrwng  
Cymraeg  
Oes

Opsiynau i ddyysgu  
iaith arall  
Oes



## GWYDDORAU'R AMGYLCHEDD

### BSc (Anrh) / MEnvSci (Anrh)

#### Beth yw natur y cwrs?

Mae ar ddiwydiant, llywodraeth a chymdeithas angen gwyddonwyr amgylcheddol yn fwy nag erioed. Mae'r radd hon yn dwyn gwybodaeth ynghyd o ystod eang o bynciau i archwilio'r materion amgylcheddol pwysicaf, megis newid hinsawdd, llygredd, ynni adnewyddadwy a diogelu'r cyflenwad bwyd. Mae'r radd yn cynnwys bioleg, cemeg, gwyddorau daear a rheoli adnoddau tir a dŵr. Mae'r cyfuniad yma o feysydd pwnc, ynghyd â nifer fawr o sesiynau ymarferol a theithiau maes, yn creu gradd sy'n hynod o ddiddorol ac yn werth chweil.

#### Pam dewis Bangor?

- Mae'r cyflwynydd teledu Steve Backshall yn rhan o'n tîm addysgu.
- Mae'r radd hon yn tynnu ar ein cryfderau mewn gwyddorau biolegol, gwyddorau'r eigion a chemeg.
- Mae gennym labordy naturiol ar garreg ein drws. O'r arfordir i dirwedd amrywiol Parc Cenedlaethol Eryri â'i hanes hir o ddulliau lluosog o ddefnyddio'r tir, mwyngloddio a chwarela.
- Mae nifer o staff wedi derbyn cydnabyddiaeth trwy amrywiol wobrau am eu brwdfrydedd a'u harbenigedd mewn addysgu.

Caiff ein graddau eu hachredu gan Sefydliad Gwyddorau'r Amgylchedd. Bydd dilyn gradd achrededig yn eich gwneud yn fwy cyflogadwy a chewch nifer o fanteision trwy gydol eich gradd.

#### Pynciau Enghreifftiol

Os dewiswch ddilyn y radd MEnvSci 4 blynedd, mae Blynnyddoedd 1 a 2 yr un fath â'r radd BSc; ond ni fyddwch yn ymgymryd â phroject anrhydedd ym Mlyddyn 3, byddwch yn hytrach yn dewis mwy o fodiwlau dewisol. Byddwch yn cwblhau project ymchwil annibynnol ar lefel Meistr ar bwnc o'ch dewis. Byddwch ar leoliad gwaith am o leiaf 4 wythnos mewn lleoliad o'ch dewis. Byddwch hefyd yn ymgymryd â modiwlau sy'n canolbwyntio ar bwysigrwydd cynaliadwyedd amgylcheddol ar gyfer busnes modern a rheolaeth amgylcheddol strategol, a fydd yn eich arfogi â sgiliau a gydnabyddir yn broffesiynol.

## CADWRAETH AMGYLCHEDDOL

### BSc (Anrh)

#### Beth yw natur y cwrs?

Deall sut i fynd i'r afael â materion amgylcheddol megis llygredd, newid yn yr hinsawdd a defnydd anghynaliadwy o adnoddau yw un o heriau pwysicaf ein canrif. Mae'r cwrs hwn yn rhoi sylfaen mewn sut mae systemau ecolegol yn gweithio, a dealltwriaeth ymarferol o'r materion sy'n ymwneud â chadwraeth amgylcheddol. Byddwch yn dysgu sgiliau allweddol y bydd eu hangen i fonitro cynefinoedd a rhywogaethau ac yn dysgu pam bod angen ystyried ffactorau cymdeithasol ac economaidd i gadwraeth lwyddo.

#### Pam dewis Bangor?

- Mae'r cyflwynydd teledu Steve Backshall yn rhan o'n tîm addysgu.
- Mae ein lleoliad, rhwng y Fenai a Pharc Cenedlaethol Eryri, yn cynnig cyfleoedd heb eu hail i ddysgu am ecoleg, cadwraeth a'r amgylchedd naturiol.
- Cysylltiadau agos â llawer o'r sefydliadau cadwraeth lleol a ledled y byd: Cyfoeth Naturiol Cymru, Ymddiriedolaeth Ornitholeg Prydain, Parc Cenedlaethol Eryri ac ati. Ar hyn o bryd mae gennym staff a myfyrwyr yn gweithio ym Madagascar, Costa Rica, Indonesia, Bolivia, Kenya a Bangladesh.

Wedi ei achredu gan Sefydliad Gwyddorau'r Amgylchedd

## CADWRAETH GYDA CHOEDWIGAETH

### BSc (Anrh)

#### Beth yw natur y cwrs?

O blith holl ecosystemau'r tir, coedwigoedd yw'r mwyaf bioamrywiol, ac ynddynt y ceir y mwyafrif helaeth o rywogaethau'r byd. Mae'r radd hon yn cynnig dealltwriaeth o'r fiamrywiaeth honno, o'r ffyrdd y mae pobl yn dylanwadu arni, ac o'r rôl y gall coedwigoedd ei chwarae yn lleihau effeithiau gweithgarwch dynol. Byddwch yn canolbwyntio ar egwyddorion cadwraeth fiolegol, ecoleg coedwigoedd a swyddogaeth ecosystemau coedwigoedd, a'r gwaith o reoli coedwigoedd i gyflawni amcanion cadwraeth.

#### Pam dewis Bangor?

- Ein lleoliad delfrydol ar gyfer astudio, yn agos at goetiroedd hynafol lled-naturiol a safleoedd eraill o bwysigrwydd cadwraethol.
- Rydym yn berchen ar 82 hectar o goetir, llawer ohono'n lled-naturiol, a ddefnyddir wrth addysgu.
- Ein cysylltiadau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol gydag amrywiaeth o asiantaethau llywodraethol a chyfrif anlywodraethol sy'n gweithio ar broiectau a materion cadwraeth.
- Aelodaeth am ddim o Sefydliad y Coedwigwyr Siartredig i fyfyrwyr y flwyddyn gyntaf.

#### Pynciau Enghreifftiol

**Blwyddyn 1**  
Cyflwyniad i egwyddorion cadwraeth, coedwigaeth a rheolaeth.

Bydd cyrsiau maes wythnos o hyd ym Mlynnyddoedd 1 a 2.

#### Blwyddyn 3

Llunio cynllun rheoli cadwraeth a chynnal project ymchwil annibynnol, dan oruchwyliad aelod o staff academaidd.

## COEDWIGAETH

### BSc (Anrh) / MFor (Anrh)

#### Beth yw natur y cwrs?

Ni fu erioed amser mwy cyffrous i ystyried Coedwigaeth fel proffesiwn. Mae ein graddau'n eich paratoi at yr her o reoli coedwigoedd a'r holl fudd y gallant eu darparu, ar adeg o newid amgylcheddol byd-eang. Mae coedwigoedd yn hanfodol i'r ecosystem fyd-eang ac maent yn gorchuddio 30% o arwynebedd tir y byd. Mae coedwigaeth yn ymwneud â deall a rheoli'r coedwigoedd hynny mewn modd cynaliadwy er lles cymdeithas.

#### Pam dewis Bangor?

- Rydym wedi bod yn dysgu coedwigaeth ym Mangor ers dros 110 o flynyddoedd a ni oedd y brifysgol gyntaf i gynnig gradd mewn Coedwigaeth.
  - Mae gennym gasgliad llyfrgell cynhwysfawr ym Mangor, ardal arbrofion ar goedwigaeth gerllaw, ac rydym o fewn pellter teithio cyfleus i goedwigoedd cyhoeddus a phreifat.
  - Rydym yn berchen ar 82 hectar o goetir, llawer ohono'n lled naturiol.
  - Teithiau maes wythnos o hyd.
  - Cyfleoedd i astudio dramor.
  - Rydym yn talu i fyfyrwyr fod yn aelodau o Sefydliad y Coedwigwyr Siartredig.
- Pynciau Enghreifftiol**  
**Blwyddyn 1**  
Egwyddorion ecolegol, economaidd ac amgylcheddol coedwigaeth.
- Blwyddyn 2**  
Sut i adnabod coed a phren, asesu safleoedd, mesur coed, coedwriaeth a stocrestri, iechyd coedwigoedd, rheoli coedwigoedd a systemau gwybodaeth ddaearyddol.
- Bydd modiwlau dewisol yn cael eu cynnig mewn ecoleg coedwigaeth, ecosystemau coedwigaeth, proffesiwn coedwigaeth, materion amgylcheddol, polisi amgylcheddol, ynni adnewyddadwy, systemau gwybodaeth ddaearyddol uwch a synhwyro o bell.
- Cwrs maes wythnos o hyd yn Tenerife.



**Cod UCAS**  
BSc: F900  
MEnvSci: F850

**Blwyddyn Sylfaen**  
Oes

**Blwyddyn Lleoliad**  
Oes

**Blwyddyn Profiad**  
Rhyngwladol  
Oes



**Tariff Mynediad**  
**Dynodol:**  
BSc: 80-112  
MEnvSci: 96-128

**Hyd y Cwrs:**  
3-5 mlynedd  
gyda blwyddyn  
rhyngwladol/  
lleoliad/sylfaen



**Campws**  
Bangor

**Opsiynau cyfrwng**  
Cymraeg  
Oes

**Opsiynau i ddysgu**  
iaith arall  
Oes



**Cod UCAS**  
D447

**Blwyddyn Sylfaen**  
Oes

**Blwyddyn Lleoliad**  
Oes

**Blwyddyn Profiad**  
Rhyngwladol  
Oes



**Tariff Mynediad**  
**Dynodol:**  
80-112

**Hyd y Cwrs:**  
3-4 blynedd  
gyda blwyddyn  
rhyngwladol/  
lleoliad/sylfaen



**Campws**  
Bangor

**Opsiynau cyfrwng**  
Cymraeg  
Oes

**Opsiynau i ddysgu**  
iaith arall  
Oes



**Cod UCAS**  
5DKD

**Blwyddyn Sylfaen**  
Oes

**Blwyddyn Lleoliad**  
Oes

**Blwyddyn Profiad**  
Rhyngwladol  
Oes



**Tariff Mynediad**  
**Dynodol:**  
80-112

**Hyd y Cwrs:**  
3-4 blynedd  
gyda blwyddyn  
rhyngwladol/  
lleoliad/sylfaen



**Campws**  
Bangor

**Opsiynau cyfrwng**  
Cymraeg  
Oes

**Opsiynau i ddysgu**  
iaith arall  
Oes



**Cod UCAS**  
BSc: D500  
MFor: D512

**Blwyddyn Sylfaen**  
Oes

**Blwyddyn Lleoliad**  
Oes

**Blwyddyn Profiad**  
Rhyngwladol  
Oes



**Tariff Mynediad**  
**Dynodol:**  
BSc: 80-112  
MFor: 96-128

**Hyd y Cwrs:**  
3-5 mlynedd  
gyda blwyddyn  
rhyngwladol/  
lleoliad/sylfaen



**Campws**  
Bangor

**Opsiynau cyfrwng**  
Cymraeg  
Oes

**Opsiynau i ddysgu**  
iaith arall  
Oes



## CADWRAETH A RHEOLI COETIROEDD

BSc (Anrh)

### Beth yw natur y cwrs?

Mae coetiroedd yn bwysig oherwydd y buddion y maent yn eu darparu ac mae cryn ddi-ddordeb mewn creu coetiroedd newydd yn y Deyrnas Unedig ac mewn gwledydd eraill ledled y byd. Mae'r radd hon yn canolbwyntio ar ddatblygu'r wybodaeth a'r sgiliau i reoli coetiroedd i ddarparu gwell cadwraeth bioamrywiaeth, lles cyhoeddus a chynhyrchu deunyddiau adnewyddadwy mewn modd cynaliadwy. Ar y cwrs hwn byddwch yn ymdrin â rheoli coetiroedd yn y Deyrnas Unedig ac yn rhyngwladol, ac yn dysgu am eu rôl wrth liniaru ac addasu i effeithiau newid yn yr hinsawdd.

### Pam dewis Bangor?

- Rydym wedi bod yn addysgu am goetiroedd am fwy na 110 o flynyddoedd. Ni oedd y Brifysgol gyntaf yn y Deyrnas Unedig i gynni gradd yn y pwnc hwn.
- Mae llawer o'n haddysgu yn digwydd mewn coetiroedd yn yr awyr agored: rydym yn berchen ar 82 ha o goetir ac yn ymweld ag ystod eang o goetiroedd yn Eryri.
- Cyrsiau maes wythnos o hyd ym mhob un o'r tair blynedd.
- Mae gennym gysylltiadau rhagorol â sefydliadau coetir yn y Deyrnas Unedig a thramor.

### Pynciau Enghreifftiol Blwyddyn 1

Strwythur a swyddogaeth ecolegol ecosystemau coetir a sail eu rheolaeth yn y gorffennol, y presennol a'r dyfodol.

### Blwyddyn 2

Egwyddorion gwyddonol ac economaidd-gymdeithasol rheoli coetiroedd, sut mae coetiroedd yn cael eu mesur a'u hasesu, iechyd coetir a swyddogaeth coed a choetiroedd yng nghefn gwlad a defnydd tir cynaliadwy.

### Blwyddyn 3

Cynllun rheoli coetir ac adolygiad annibynnol ar bwnc yn ymwneud â choetiroedd.

## DAEARYDDIAETH

BSc (Anrh) / BA (Anrh) / MGeog (Anrh)

### Beth yw natur y cwrs?

Mae Daearyddiaeth yn pontio'r bwlch rhwng gwyddorau cymdeithas a gwyddorau naturiol, ac rydym ni yn defnyddio dull rhyngddisgyblaethol. Mae ein cyrsiau'n caniatáu i chi archwilio'r prosesau ffisegol sy'n llunio'r ddaear, y prosesau cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd sy'n dylanwadu ar bobl a lleoedd, a'r berthynas rhwng dynoliaeth a'r amgylchedd. Mae myfyrwyr y radd MGeog yn dilyn yr un rhaglen ym Mlwyddyn 1 a 2, ond yn ymgymryd â Phroject MGeog ym Mlwyddyn 3. Mae Blwyddyn 4 yr MGeog yn canolbwyntio ar eich ymchwil eich hun sy'n eich galluogi i arbenigo.

### Pam dewis Bangor?

- Mae'r cyflwynydd teledu Steve Backshall yn rhan o'n tîm addysgu.
- Teithiau maes sy'n manteisio ar ein lleoliad unigryw ar arfordir trawiadol y gogledd.
- Cysylltiadau cryf â sefydliadau: Comisiwn Coedwigaeth, Natural England, Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, Cyfoeth Naturiol Cymru, Canolfan Ecoleg a Hydroleg, Dŵr Cymru, Asiantaeth yr Amgylchedd. Mae rhai yn cyfrannu at yr addysgu ac yn darparu lleoliadau.
- Mae gennym Ystafell Systemau Gwybodaeth Ddaearyddol.

### Pynciau Enghreifftiol

Cyrsiau maes yn Eryri a de-orllewin Lloegr ym mlwyddyn 1 a 2 a de Sbaen neu Tenerife ym Mlwyddyn 3.

Bydd Blwyddyn 2 yn eich cyflwyno i dechnegau arbenigol a sgiliau gwaith maes ac yn datblygu eich ymchwil eich hun. Gallwch drosglwyddo i'r radd MGeog ar ddiwedd Blwyddyn 2.

Yn eich blwyddyn olaf gallwch ddewis o blith ystod o fodiwlau a fydd yn eich galluogi i arbenigo yn y meysydd sydd fwyaf o ddiddordeb ichi. Byddwch yn cynnal eich ymchwil eich hun (traethawd hir).

## CADWRAETH BYWYD GWYLLT

BSc (Anrh)

### Beth yw natur y cwrs?

Bydd y cwrs hwn yn rhoi dealltwriaeth fanwl i chi o bob agwedd ar wyddor cadwraeth, fel egwyddorion ecoleg, esblygiad, rheolaeth amgylcheddol, a sut i gymhwysu hyn i gadwraeth bywyd gwylt. Byddwch yn dysgu am y materion sy'n ymwneud â monitro a rheoli bywyd gwylt oherwydd ei werth cynhenid ac fel adnodd naturiol. Cewch eich addysgu am ecoleg gymhwysol, swyddogaethau ecosystemau, gwasanaethau ecosystemau, polisi amgylcheddol a gwyddor cadwraeth.



### Pam dewis Bangor?

- Mae'r cyflwynydd teledu Steve Backshall yn rhan o'n tîm addysgu.
- Teithiau maes i Tenerife neu Uganda.
- Mae ein lleoliad, rhwng y Fenai a Pharc Cenedlaethol Eryri, yn cynni cyfleoedd heb eu hail i ddysgu am ecoleg, cadwraeth a'r amgylchedd naturiol y tu allan i'r ystafell ddsbarth.
- Mae gennym gysylltiadau ardderchog â sefydliadau cadwraeth ledled y byd. Ar hyn o bryd mae gennym staff a myfyrwyr yn gweithio ym Madagascar, Costa Rica, Colombia, Ghana, Kenya a Bangladesh.

### Pynciau Enghreifftiol

Bydd y radd hon yn datblygu sgiliau deallusol ac ymarferol, ynghyd â sgiliau rhifedd, cyfathrebu a thechnoleg gwybodaeth, sgiliau rhyngpersonol a hunan-reoli a sgiliau proffesiynol mewn cyd-destun sy'n benodol i'r byd cadwraeth.

Byddwch yn cael eich hyfforddi i gael eich cyflogi mewn ystod eang o feysydd gan gynnwys cadwraeth bywyd gwylt a phroffesiynau eraill sy'n gofyn am y gallu i roi dull meintiol a / neu amlddisgyblaethol ar waith wrth ddatrys problemau.



Cod UCAS  
D515

Blwyddyn Sylfaen  
Oes

Blwyddyn Lleoliad  
Oes

Blwyddyn Profiad  
Rhyngwladol  
Oes



Tariff Mynediad  
Dynodol:  
80-112

Hyd y Cwrs:  
3-4 blynedd  
gyda blwyddyn  
rhyngwladol/  
lleoliad/sylfaen



Campws  
Bangor

Opsiynau cyfrwng  
Cymraeg  
Oes

Opsiynau i ddysgu  
iaith arall  
Oes



Cod UCAS  
BA: L700  
BSc: F800  
MGeog: F801

Blwyddyn Sylfaen  
Oes

Blwyddyn Lleoliad  
Oes

Blwyddyn Profiad  
Rhyngwladol  
Oes



Tariff Mynediad  
Dynodol:  
BA/BSc: 80-120  
MGeog: 96-128

Hyd y Cwrs:  
3-5 mlynedd  
gyda blwyddyn  
rhyngwladol/  
lleoliad/sylfaen



Campws  
Bangor

Opsiynau cyfrwng  
Cymraeg  
Oes

Opsiynau i ddysgu  
iaith arall  
Oes



Cod UCAS  
C328

Blwyddyn Sylfaen  
Oes

Blwyddyn Lleoliad  
Oes

Blwyddyn Profiad  
Rhyngwladol  
Oes



Tariff Mynediad  
Dynodol:  
80-112

Hyd y Cwrs:  
3-4 blynedd  
gyda blwyddyn  
rhyngwladol/  
lleoliad/sylfaen



Campws  
Bangor

Opsiynau cyfrwng  
Cymraeg  
Oes


Opsiynau i ddysgu  
iaith arall  
Oes





# SWOLEG

Bydd wych ym Mangor!







LLWYBRAU A RHESTRAU CYRSIAU

## SWOLEG

SWOLEG GYDAG YMDDYGIAD ANIFEILIAID

SWOLEG GYDA RHEOLAETH ANIFEILIAID

SWOLEG GYDA CHADWRAETH

SWOLEG GYDA HERPETOLEG

SWOLEG GYDA SWOLEG MŌR

SWOLEG GYDAG ORNITHOLEG

SWOLEG GYDA PHRIMATOLEG



## SWOLEG

BSc (Anrh) / MZool (Anrh)

## Beth yw natur y cwrs?

Mae swoleg yn edrych ar bob math o agweddau'n ymwneud ag anifeiliaid. Byddwch yn derbyn sylfaen drylwyr mewn swoleg gyffredinol, gan edrych ar amrywiaeth ffurf a swyddogaeth anifeiliaid, ac esblygiad ac ecoleg y prif grwpiau o anifeiliaid. Trwy gyfres o fodiwlau sy'n cynnig elfen o ddewis, byddwch yn astudio swoleg infertebratau a fertebratau ac yn ystyried agweddau cymhwysol megis parasitoleg, a'r rhyngweithio rhwng anifeiliaid a'u hamgylchedd. Rydym yn cynnig teithiau maes rhyngwladol a phrofiad gwaith mewn labordy ymchwil.

## Pam dewis Bangor?

- Mae'r cyflwynydd teledu Steve Backshall yn rhan o'n tîm addysgu.
- Mae gennym amgueddfa byd natur lle ceir casgliad cynhwysfawr o ddeunydd pryfed a fertebratau, acwaria môr a dŵr croyw, herpetariwm, cyfleusterau i famaliaid bychan, a chyfres o ystafelloedd y rheolir eu tymheredd.
- Mae ein lleoliad yn ddelfrydol i astudio swoleg gan fod gennym ystod eang o gynefinoedd daear a dŵr yn lleol ar gyfer cynnal teithiau maes, gan gynnwys gardd fotaneg y Brifysgol yn Nhreforth.

## Pynciau Enghreifftiol

Ymhlith y pynciau mae amrywiaeth organebol, ecoleg ac esblygiad, biolleg fertebratau ac infertebratau, ymddygiad anifeiliaid, ecoleg ymddygiadol a herpetoleg. Mae cyfle i ennill profiad ychwanegol mewn primatoleg, ornitholeg, ac entomoleg mewn modiwlau dewisol.

## Blwyddyn 3

Cwblhau project ymchwil annibynnol. Gwaith maes lleol a thramor.

Rhaglen israddedig estynedig yw'r radd MZool lle byddwch yn graddio ar ddiwedd Blwyddyn 4, ar ôl cwblhau project ymchwil.



**Cod UCAS**  
BSc: C300,  
MZool: C301

**Blwyddyn Sylfaen**  
Oes

**Blwyddyn Lleoliad**  
Oes

**Blwyddyn Profiad**  
Rhyngwladol  
Oes



**Tariff Mynediad**  
Dynodol:  
BSc: 80-112  
MZool: 96-128

**Hyd y Cwrs:**  
3-5 mlynedd  
gyda blwyddyn  
rhyngwladol/  
lleoliad/sylfaen



**Campws**  
Bangor

**Opsiynau cyfrwng**  
Cymraeg  
Oes

**Opsiynau i ddyysgu**  
iaith arall  
Oes



## SWOLEG GYDAG YMDDYGIAD ANIFEILIAID

BSc (Anrh) / MZool (Anrh)

### Beth yw natur y cwrs?

Mae'r awydd i ddeall ymddygiad anifeiliaid wedi arwain at ddatblygu cangen ar wahân o swoleg, a elwir yn etholeg. Ar y cwrs hwn byddwch yn astudio swoleg traddodiadol ond bydd pwyslais ar ymddygiad anifeiliaid. Byddwch yn darganfu sut mae anifeiliaid yn rhyngweithio â'i gilydd ac â'u hamgylchfyd, gan edrych yn benodol ar fecanweithiau, swyddogaethau, datblygiad ac esblygiad ymddygiad.

### Pam dewis Bangor?

- Mae'r cyflwynydd teledu Steve Backshall yn rhan o'n tîm addysgu.
- Mae colomendy ar gyfer ymchwil gwybyddiaeth adar a ffisioleg yng Ngardd Fotaneg Treborth, cyfleusterau ar gyfer cnofilod, ymlusgiaid, alpacas a defaid a chychoed gwenyn ar fferm y Brifysgol.
- Mae gennym amgueddfa byd natur lle ceir casgliad cynhwysfawr o ddeunydd pryfed a fertebrau, ac acwaria môr a dŵr croyw a chyfres o ystafelloedd y rheolir eu tymheredd.
- Cysylltiadau cryf â sefydliadau swolegol a chyfleusterau ymchwil sy'n caniatáu cynnal teithiau maes rhyngwladol.

### Pynciau Enghreifftiol

#### Blwyddyn 2

Ecoleg ymddygiadol sy'n edrych ar sut mae ymddygiad yn esblygu a beth yw ei bwrpas, gan edrych hefyd ar sut mae anifeiliaid yn dewis cymar, pam fod anifeiliaid yn cydweithredu, a sut maen nhw'n cyfathrebu.

#### Blwyddyn 3

Byddwch yn astudio datblygiadau ymddygiad yn edrych ar wybyddiaeth anifeiliaid, personoliaeth anifeiliaid, ymdeimladoldeb anifeiliaid, a moeseg a lles anifeiliaid.

Rhaglen israddedig estynedig yw'r radd Meistr mewn Swoleg (Ymddygiad Anifeiliaid) sy'n eich galluogi i raddio gyda gradd Meistr ar ddiwedd Blwyddyn 4.

## SWOLEG GYDA RHEOLAETH ANIFEILIAID

BSc (Anrh) / MZool (Anrh)

### Beth yw natur y cwrs?

Bydd y radd hon yn rhoi dull cynhwysfawr, gwyddonol i chi o reoli anifeiliaid, trwy gyfuniad o fodiwlau amlddisgyblaethol ac arbenigol. I unrhyw un sy'n dymuno dilyn gyrfa yn y diwydiant gofal anifeiliaid, byddwch yn graddio o'r rhaglen hon, sy'n radd dan arweiniad ymchwil, yn gyflogadwy a chyda phrofiad ymarferol perthnasol.

### Pam dewis Bangor?

- Mae gan yr aelod academiaidd o staff sy'n arwain y rhaglen radd hon brofiad o weithio yn y diwydiant sw ac mae wedi cynnwys amryw o sgyrsiau gan arbenigwyr ysbrydoledig fel rhan o'r modiwlau rheoli anifeiliaid.
- Mae gennym ein fferm ein hunain yn y brifysgol, sef Canolfan Ymchwil Henfaes.
- Yn ystod y lleoliad hwsmonaeth anifeiliaid ym Blwyddyn 3 byddwch yn cael profiad yn hwsmonaeth anifeiliaid o fewn y diwydiant.

### Pynciau Enghreifftiol

Mae rhain yn cynnwys:  
- Rheolaeth anifeiliaid  
- Datblygiadau mewn rheolaeth anifeiliaid  
- Lleoliad hwsmonaeth anifeiliaid

Agwedd ganolog o'r rhaglen hon yw dau fodiwl sy'n edrych ar ddulliau rheoli anifeiliaid ar sail ymchwil, gan gynnwys cysyniadau allweddol megis; hwsmonaeth anifeiliaid, iechyd anifeiliaid, maeth, ymddygiad, hyfforddiant, rheoli cyfleusterau, ffermio masnachol a rheoli sw. Bydd llawer o sesiynau'n rhai cymhwysol, gan ymgorffori ystod o enghreifftiau o gasgliadau anifeiliaid, acwaria a'r diwydiant ffermio masnachol.

## SWOLEG GYDA CHADWRAETH

BSc (Anrh) / MZool (Anrh)

### Beth yw natur y cwrs?

Mae'r cwrs hwn yn cynnig swoleg draddodiadol (tacsonomeg, morffoleg, ffisioleg, a bioleg celloedd) gyda phwyslais ar ecoleg anifeiliaid (bioamrywiaeth, ecoleg, ymddygiad ac esblygiad). Byddwch yn dod i ddeall yr angen am gadwraeth amgylcheddol a'r modd y gellir cyflawni amcanion cadwraeth. Mae'r cwrs yn creu cysylltiadau rhwng yr amgylchedd dysgu academiaidd a chyrrff amgylcheddol a chadwraeth allanol trwy waith project a chynlluniau rheoli ymarferol.

### Pam dewis Bangor?

- Mae'r cyflwynydd teledu Steve Backshall yn rhan o'n tîm addysgu.
- Mae Bangor yn lle delfrydol i astudio pob agwedd ar fywyd gwylt a chadwraeth – gydag ystod enfawr o gynefinoedd ar garreg ein drws.
- Mae ein cyfleusterau addysgu ychwanegol helaeth yn cynnwys amgueddfa byd natur, acwaria môr a dŵr croyw, fferm a gardd fotaneg.

### Pynciau Enghreifftiol

Mae nifer o deithiau maes rhyngwladol ar gael yn yr ail flwyddyn sy'n ymdrin ag ystod o bynciau swoleg a chadwraeth.

Rhaglen israddedig estynedig yw'r MZool sy'n caniatáu i fyfyrwyr raddio naill ai gyda BSc ar ddiwedd Blwyddyn 3 neu gyda gradd Meistr ar ddiwedd Blwyddyn 4.

## SWOLEG GYDA HERPETOLEG

BSc (Anrh) / MZool (Anrh)

### Beth yw natur y cwrs?

Mae ymlusgiaid ac amffibiaid yn cael eu gwerthfawrogi fwyfwy fel organebau enghreifftiol mewn sawl maes swoleg, ac maent yn ganolbwynt i bryder cadwraethol cynyddol oherwydd dirywiad llawer o rywogaethau. Mae angen gwyddonwyr proffesiynol hyfforddedig sydd â gwybodaeth a sgiliau arbenigol yn ymwneud â'r anifeiliaid hyn. Mae'r radd hon yn cyfuno swoleg draddodiadol gyda phwyslais ar fioleg ac amrywiaeth amffibiaid ac ymlusgiaid.

### Pam dewis Bangor?

- Mae'r cyflwynydd teledu Steve Backshall yn rhan o'n tîm addysgu.
- Mae elfennau galwedigaethol y radd hon yn cael eu darparu gan staff allanol sydd â chymwysterau a phrofiad awyr agored ymarferol.
- Cyfleoedd i ennill gwobrau Corff Llywodraethol Cenedlaethol.

### Pynciau Enghreifftiol

- Byddwch yn datblygu i fod yn arbenigwr antur sy'n gallu cymhwyso gwybodaeth graidd gwyddorau chwaraeon a set o sgiliau ymarferol i weithgareddau antur mynydd a dŵr. Mae'r pynciau yn cynnwys:
  - Gweithgaredd antur dŵr a thir
  - Therapi antur awyr agored
  - Alldaith ymchwil
  - Ffisioleg amgylcheddol
  - Ffisioleg chwaraeon ac ymarfer
  - Astudiaethau gyrfa gwyddorau chwaraeon
  - Biomecaneg
  - Gwyddorau chwaraeon cymhwysol
  - Seicoleg perfformiad chwaraeon
  - Straen a pherfformiad
  - Personoliaeth a gwahaniaethau unigol



Cod UCAS  
C611

Blwyddyn Sylfaen  
Oes

Blwyddyn Lleoliad  
Oes

Blwyddyn Profiad  
Rhyngwladol  
Oes



Tariff Mynediad  
Dynodol:  
64-112

Hyd y Cwrs:  
3-4 blynedd  
gyda blwyddyn  
rhyngwladol/  
lleoliad/sylfaen



Campws  
Bangor

Opsiynau cyfrwng  
Cymraeg  
Oes

Opsiynau i ddyysgu  
iaith arall  
Oes



## GWYDDORAU CHWARAEON AC YMARFER\* BSc (Anrh)

### Beth yw natur y cwrs?

Mae athletwyr elit yn defnyddio dull sy'n gynyddol wyddonol i ganfod enillion ffiniol gwerthfawr. Mae ymarferwyr hamdden a chleifion sy'n byw gydag anhwylderau yn troi at wyddoniaeth trwy apiau a dyfeisiau biotechnoleg i fonitro eu hyfforddiant, adferiad, iechyd a lles. Bydd y radd fodern, ymarferol hon, sydd â phwyslais ar ymchwil, yn eich arfogi â dealltwriaeth feirniadol o wyddoniaeth gweithredu dynol ac yn darparu'r sgiliau a'r profiad sydd eu hangen i ddatblygu ymyriadau seicolegol a ffisiolegol arloesol i hyrwyddo perfformiad chwaraeon, ymarfer corff ac iechyd.

### Pam dewis Bangor?

- Boddhad Myfyrwr o 95% (Gwyddorau Chwaraeon, Iechyd ac Ymarfer Corff – NSS 2020).
- Yn y 5ed safle am Ymchwil o Ansawdd uchel (*Complete University Guide 2021*).
- Labordy ffisioleg ymarfer corff, siambrau sy'n efelychu amodau amgylcheddol ac uchder mawr, labordai dadansoddi symudiadau, biocemeg, biolog celloedd a seicoleg chwaraeon.
- Mae'n darparu'r set sgiliau ar gyfer gyrfa broffesiynol lwyddiannus mewn chwaraeon elit, busnes, ymarfer corff, adferiad neu iechyd.

### Pynciau Enghreifftiol

Mae cynnwys yr ymchwil seicoffisiolegol a niwrowyddonol ddiweddaraf ym maes chwaraeon ac ymarfer corff yn caniatáu i'n myfyrwyr bontio'r ffiniau traddodiadol rhwng disgyblaethau a graddio gyda gwerthfawrogiad o sut mae holl wahanol feysydd gwyddorau chwaraeon ac ymarfer yn cydblethu.

Mae'r pynciau yn cynnwys:

- Seicoleg
- Ffisioleg
- Biomecaneg
- Anatomeg ddynol
- Maetheg chwaraeon
- Adferiad

## SEICOLEG CHWARAEON AC YMARFER

BSc (Anrh)

### Beth yw natur y cwrs?

Byddwch yn dysgu am yr hyn mae seicolegwyr chwaraeon ac ymarfer yn ei wneud, sut maen nhw'n ei wneud, a pham. Byddwch yn dysgu gan staff arbenigol am ystod o bynciau yn amrywio o sut mae perfformwyr chwaraeon yn ffynnu dan bwysau i'r hyn sy'n cymell ymarferwyr corff i gymryd rhan mewn gweithgarwch corfforol. Byddwch hefyd yn cwblhau project ymchwil gwreiddiol a fydd yn ychwanegu at yr hyn rydym yn ei wybod am gymhwysu ffactorau seicolegol sy'n gysylltiedig ag ymarfer corff a chwaraeon ac a fydd yn eich paratoi ar gyfer gyrfa fel seicolegydd chwaraeon.

### Pam dewis Bangor?

- Yn y 5ed safle am Ymchwil o Ansawdd uchel (*Complete University Guide 2021*).
- Sefydliad Seicoleg Perfformiad Elit (IPEP) sydd â bri rhyngwladol ac yn cynnwys labordai seicoleg chwaraeon o'r radd flaenaf.
- Mae'r staff yn cynnig arbenigedd mewn seicoleg chwaraeon ac arweinyddiaeth i gyrrff gan gynnwys:
  - Ffisioleg Prydain, Bwrdd Criced Cymru a Lloegr, UK Sport, Chwaraeon Cymru, y Weinyddiaeth Amddiffyn, Lloyds TSB, Ericsson.

Achrediad Cymdeithas Seicolegol Prydain (BPS).

### Pynciau Enghreifftiol

Cewch eich haddysgu gan seicolegwyr siartredig adnabyddus, am ffisioleg ymarfer corff a sut mae'r meddwl a'r corff yn rhyngweithio i ddylanwadu ar berfformiad. Mae Bangor yn gartref ar hyn o bryd i un o'r carfannau mwyaf yn y byd o academyddion seicoleg sy'n arbenigo mewn perfformiad.

Mae'r pynciau yn cynnwys:

- Ffisioleg
- Seicoleg perfformiad
- Yr ymennydd a'r meddwl
- Anatomeg
- Seicoleg ymarfer corff
- Ymwybyddiaeth ofalgar
- Personoliaeth
- Cwnsela
- Straen a pherfformiad
- Gwyddorau chwaraeon cymhwysol perfformiad elit

## GWYDDORAU CHWARAEON, ADDYSG GORFFOROL A HYFFORDDI\* BSc (Anrh)

### Beth yw natur y cwrs?

Hyfforddwyd Geraint Thomas, Gareth Bale a Sam Warburton i gyd gan yr un athro Addysg Gorfforol rhagorol! Os ydych chi'n cael eich ysbrydoli gan ragoriaeth hyfforddi, yna mae'r radd hon ar eich cyfer chi. Byddwch yn datblygu meddwl beirniadol a sgiliau galwedigaethol cymhwysol ac yn mabwysiadu ymarfer ar sail tystiolaeth ac yn meithrin eich sgiliau mewn amgylchedd cefnogol. Mae'r radd, sy'n cael ei haddysgu gan arbenigwyr, yn cael ei chyflwyno trwy ddulliau addysgu cyfoes ym maes addysg a hyfforddi.

### Pam dewis Bangor?

- 100% Boddhad Myfyrwr (Chwaraeon, Iechyd ac Addysg Gorfforol – NSS 2020).
- Yn y 5ed safle am Ymchwil o Ansawdd uchel (*Complete University Guide 2021*).
- Cysylltiadau agos â chyrrff proffil uchel (e.e. y GIG, y lluoedd arfog, UK Sport, Chwaraeon Cymru, timau pêl-droed yn yr Uwch Gyngghair, Bwrdd Criced Cymru a Lloegr).
- Cefnogaeth i ennill cymwysterau galwedigaethol.

### Pynciau Enghreifftiol

Mae'r amrywiaeth eang o bynciau yn rhoi hyblygrwydd i chi a chyfle delfrydol i arbenigo yn nes ymlaen yn eich cwrs. Cyflwynir modiwlau ymarferol gan ddarlithwyr sydd yn ymarferwyr cryfder a chyflyru profiadol gyda chymwysterau hyfforddi mewn amrywiaeth eang o chwaraeon fel rygbi, athletau, badminton, pêl-droed, hoci, tenis, criced a nofio.

Mae'r pynciau yn cynnwys:

- Hyfforddi
- Addysg gorfforol
- Adnabod a datblygu talent
- Cryfder a chyflyru
- Seicoleg chwaraeon
- Ffisioleg
- Biomecaneg
- Maetheg chwaraeon

## GWYDDORAU CHWARAEON, CRYFDER A CHYFLYRU\* BSc (Anrh)

### Beth yw natur y cwrs?

Mae cryfder a chyflyru yn elfennau allweddol o drefn hyfforddi pob athletwr. Mae Bangor yn gartref i Ganolfan Genedlaethol Perfformiad Codi Pwysau Cymru, ac mewn sefyllfa ddelfrydol i gynniag profiad 'byd go iawn' mewn cryfder a chyflyru. Bydd gennyh fynediad i Ganolfan Hyfforddi Perfformiad Plattform 81 sydd 470 metr sgwâr, ein llain artiffisial 3G sydd o safon Rygbi'r Byd a FIFA, a labordai gwyddorau chwaraeon o'r radd flaenaf. Byddwch yn ennill dealltwriaeth ddamcaniaethol fodern o wyddorau chwaraeon, cryfder a chyflyru ac yn datblygu sgiliau ymarferydd.

### Pam dewis Bangor?

- 100% Boddhad Myfyrwr (Chwaraeon, Iechyd ac Addysg Gorfforol – NSS 2020).
- Yn y 5ed safle am Ymchwil o Ansawdd uchel (*Complete University Guide 2021*).
- Yn cynnwys modiwlau ymarferol a lleoliadau gwaith sy'n gysylltiedig â chwaraeon
- Cysylltiadau agos â chyrrff proffil uchel (e.e. y GIG, y lluoedd arfog, UK Sport, Chwaraeon Cymru, timau pêl-droed yn yr Uwch Gyngghair, Bwrdd Criced Cymru a Lloegr).
- Labordai rhagorol gan gynnwys labordy ffisioleg ymarfer corff gwerth £1M.

### Pynciau Enghreifftiol

Mae'r amrywiaeth eang o bynciau yn rhoi hyblygrwydd i chi a chyfle delfrydol i arbenigo yn nes ymlaen yn eich cwrs. Cyflwynir modiwlau ymarferol gan ddarlithwyr sydd yn ymarferwyr cryfder a chyflyru profiadol gyda chymwysterau hyfforddi mewn amrywiaeth eang o chwaraeon fel rygbi, athletau, badminton, pêl-droed, hoci, tenis, criced a nofio.

Mae'r pynciau yn cynnwys:

- Ffisioleg
- Hyfforddi
- Gwyddor hyfforddi
- Biomecaneg
- Cryfder a chyflyru
- Maetheg chwaraeon



Cod UCAS  
Gweler y wefan

Blwyddyn Sylfaen  
Oes

Blwyddyn Lleoliad  
Oes

Blwyddyn Profiad  
Rhyngwladol  
Oes



Tariff Mynediad  
Dynodol:  
80-120

Hyd y Cwrs:  
3-4 blynedd  
gyda blwyddyn  
rhyngwladol/  
lleoliad/sylfaen



Campws  
Bangor

Opsiynau cyfrwng  
Cymraeg  
Oes

Opsiynau i ddysgu  
iaith arall  
Oes

\*Yn amodol ar  
ddilysu



Cod UCAS  
C680

Blwyddyn Sylfaen  
Oes

Blwyddyn Lleoliad  
Oes

Blwyddyn Profiad  
Rhyngwladol  
Oes



Tariff Mynediad  
Dynodol:  
80-128

Hyd y Cwrs:  
3-4 blynedd  
gyda blwyddyn  
rhyngwladol/  
lleoliad/sylfaen



Campws  
Bangor

Opsiynau cyfrwng  
Cymraeg  
Oes

Opsiynau i ddysgu  
iaith arall  
Oes



Cod UCAS  
Gweler y wefan

Blwyddyn Sylfaen  
Oes

Blwyddyn Lleoliad  
Oes

Blwyddyn Profiad  
Rhyngwladol  
Oes



Tariff Mynediad  
Dynodol:  
80-120

Hyd y Cwrs:  
3-4 blynedd  
gyda blwyddyn  
rhyngwladol/  
lleoliad/sylfaen



Campws  
Bangor

Opsiynau cyfrwng  
Cymraeg  
Oes

Opsiynau i ddysgu  
iaith arall  
Oes

\*Yn amodol ar  
ddilysu



Cod UCAS  
Gweler y wefan

Blwyddyn Sylfaen  
Oes

Blwyddyn Lleoliad  
Oes

Blwyddyn Profiad  
Rhyngwladol  
Oes



Tariff Mynediad  
Dynodol:  
80-120

Hyd y Cwrs:  
3-4 blynedd  
gyda blwyddyn  
rhyngwladol/  
lleoliad/sylfaen



Campws  
Bangor

Opsiynau cyfrwng  
Cymraeg  
Oes

Opsiynau i ddysgu  
iaith arall  
Oes

\*Yn amodol ar  
ddilysu





# SEICOLEG

Bydd wych ym Mangor!







LLWYBRAU A RHESTRAU CYRSIAU

## SEICOLEG

SEICOLEG GYDA  
SEICOLEG FFORENSIGSEICOLEG GYDA SEICOLEG GLINIGOL  
AC IECHYD

## SEICOLEG GYDA NIWROSEICOLEG

## SEICOLEG

## BSc (Anrh)

**Beth yw natur y cwrs?**

Cwrs 'seicoleg bur' yw hwn a wnaiff roi dealltwriaeth wyddonol i chi o'r prosesau sylfaenol sy'n fodd i ni ddysgu, meddwl, teimlo ac addasu i'n hamgylchiadau cymdeithasol. Mae'r cwrs yn ymdrin ag ymchwilio i ymddygiad o fabandod hyd henaint, ac mae'n ymdrin â'r ffactorau biolegol, cymdeithasol ac unigol sy'n effeithio ar seicoleg ddynol. Mae'r cwrs yn cynnig y dewis ehangaf posibl o fodiwlau yn y drydedd flwyddyn sy'n eich galluogi i deilwra'ch astudiaethau.

**Pam dewis Bangor?**

- Boddhad Myfyrwyr yn 96% (NSS 2020).
- 2ail am foddhad gyda'r cwrs (*Guardian Good University Guide 2021*).
- Yn yr 20 uchaf am Ymchwil o Ansawdd uchel (*Complete University Guide 2021*).
- Sganiwr MRI, TMS, ERP, EEG a labordy anatomeg yr ymennydd.
- Mae'r profiadau dysgu unigryw presennol yn cynnwys anatomeg ymarferol yr ymennydd dynol.

Weddi achredu gan Gymdeithas Seicolegol Prydain gan roi sylfaen i raddedigion ar gyfer aelodaeth siartredig (GBC) sy'n hanfodol ar gyfer dechrau unrhyw yrfa mewn seicoleg.

**Pynciau Enghreifftiol**

Yn ogystal â modiwlau sy'n ymdrin â dulliau ymchwil, sgiliau ysgrifennu a chyfathrebu gwyddonol, gallwch astudio ystod eang o bynciau gan gynnwys:

- Seicoleg ymddygiad
- Ffydd a diwylliant
- Niwroseicoleg
- Iaith
- Iechyd corfforol a meddyliol
- Seicoleg gymhwysol
- Seicoleg fiolegol
- Seicoleg datblygiad
- Personoliaeth a gwahaniaethau unigol
- Seicoleg gymdeithasol
- Seicoleg glinigol
- Seicoleg wybyddol
- Niwrowyddoniaeth
- Ymddygiadau caethiwus
- Seicoleg iechyd
- Seicoleg fforensig
- Cwnsela
- Ymwybyddiaeth ofalgar

SEICOLEG GYDA  
SEICOLEG FFORENSIG

## BSc (Anrh)

**Beth yw natur y cwrs?**

Yn ogystal â'r modiwlau seicoleg cyffredinol, byddwch yn arbenigo mewn deall y ffactorau seicolegol sy'n esbonio pam mae pobl yn troseddu neu'n ymddywyn mewn modd gwyrdröedig. Byddwch yn defnyddio sgiliau beirniadol a thystiolaeth, sy'n seiliedig ar ymchwilio, i archwilio sut y gall seicolegwyr fforensig gyfrannu at ddadleuon ynglŷn â phlismona, troseddu, y system cyfiawnder troseddol ac ailsefydlu. Byddwch yn dysgu am y rhesymau pam mae pobl yn ymddywyn yn droseddol ac yn edrych ar ffyrdd y gall seicolegwyr fforensig drin ac ailsefydlu troseddwyr.

**Pam dewis Bangor?**

- 6ed yn y Deyrnas Unedig am foddhad y myfyrwyr (NSS 2020).
- 2ail (allan o 115) am foddhad gyda'r cwrs (*Guardian Good University Guide 2021*).
- Yn yr 20 uchaf am safon yr ymchwil (*Complete University Guide 2021*).
- Sganiwr MRI, TMS, ERP, EEG a labordy anatomeg yr ymennydd.
- Arbenigedd academiaidd mewn seicoleg fforensig, troseddeg a chyfiawnder troseddol ac amrywiaeth dda o bynciau at draethawd hir.

Weddi achredu gan Gymdeithas Seicolegol Prydain gan roi sylfaen i raddedigion ar gyfer aelodaeth siartredig (GBC) sy'n hanfodol ar gyfer dechrau unrhyw yrfa mewn seicoleg.

**Pynciau Enghreifftiol**

Yn ogystal â modiwlau sy'n ymdrin â dulliau ymchwil, sgiliau ysgrifennu a chyfathrebu gwyddonol, cewch astudio pynciau gan gynnwys:

- Seicoleg ymddygiad
- Seicoleg droseddol
- Niwroseicoleg
- Iaith
- Iechyd corfforol a meddyliol
- Seicoleg gymhwysol
- Seicoleg fiolegol
- Seicoleg datblygiad
- Seicoleg gymdeithasol
- Seicoleg glinigol
- Plismona a chymdeithas
- Trosedd a chosb
- Seicoleg plentyndod a throsedd
- Camddefnyddio sylweddau
- Straen a gorbryder
- Seicoleg fforensig
- Cwnsela
- Troseddau leuenctid

Cod UCAS  
C800Blwyddyn Sylfaen  
OesBlwyddyn Lleoliad  
OesBlwyddyn Profiad  
Rhyngwladol  
OesTariff Mynediad  
Dynodol:  
80-128Hyd y Cwrs:  
3-4 blynedd  
gyda blwyddyn  
rhyngwladol/  
lleoliad/sylfaenCampws  
BangorOpsionau cyfrwng  
Cymraeg  
OesOpsionau i ddysgu  
iaith arall  
OesCod UCAS  
C813Blwyddyn Sylfaen  
OesBlwyddyn Lleoliad  
OesBlwyddyn Profiad  
Rhyngwladol  
OesTariff Mynediad  
Dynodol:  
80-128Hyd y Cwrs:  
3-4 blynedd  
gyda blwyddyn  
rhyngwladol/  
lleoliad/sylfaenCampws  
BangorOpsionau cyfrwng  
Cymraeg  
OesOpsionau i ddysgu  
iaith arall  
Oes



## SEICOLEG GYDA SEICOLEG GLINIGOL AC IECHYD BSc (Anrh)

### Beth yw natur y cwrs?

Byddwch yn arbenigo mewn deall y ffactorau seicolegol sy'n gysylltiedig ag iechyd meddwl a chorfforol, eu hachosion, eu triniaeth a sut i'w hatal. Byddwch yn astudio problemau ymddygiad mewn plant, salwch meddwl mewn oedolion, a phroblemau seicolegol wrth heneiddio gan gynnwys materion cyfoes pwysig fel anhwylderau bwya a chamddefnyddio cyffuriau. Byddwch yn archwilio'r ffactorau seicolegol sy'n arwain rhai unigolion i ymddwyn mewn ffyrdd sy'n niweidiol i'w hiechyd a'r hyn sy'n digwydd pan fydd unigolion yn mynd yn sâl neu'n anabl.

### Pam dewis Bangor?

- Boddhad Myfyrwyr yn 92% (NSS 2020).
- 2ail (allan o 115) am foddhad gyda'r cwrs (*Guardian Good University Guide 2021*).
- Yn yr 20 uchaf am Ymchwil o Ansawdd uchel (*Complete University Guide 2020*).
- Sganiwr MRI, TMS, ERP, EEG a labordy anatomeg yr ymennydd.
- Arbenigedd academaidd mewn seicoleg glinigol ac iechyd ac amrywiaeth o bynciau traethawd hir e.e. ymchwilio i ymddygiad yfed myfyrwyr, profiadau niweidiol yn ystod plentynod.

Weddi achredu gan Gymdeithas Seicolegol Prydain gan roi sylfaen i radddegion ar gyfer aelodaeth siartredig (GBC) sy'n hanfodol ar gyfer dechrau unrhyw yrfa mewn seicoleg.



Cod UCAS  
C880



Tariff Mynediad  
Dynodol:  
80-128



Campws  
Bangor

Blwyddyn Sylfaen  
Oes

Hyd y Cwrs:  
3-4 blynedd

Blwyddyn Lleoliad  
Oes

gyda blwyddyn  
rhyngwladol/  
lleoliad/sylfaen

Blwyddyn Profiad  
Rhyngwladol  
Oes

Opsionau cyfrwng  
Cymraeg  
Oes

Opsionau i ddysgu  
iaith arall  
Oes

## SEICOLEG GYDA NIWROSEICOLEG

BSc (Anrh)

### Beth yw natur y cwrs?

Byddwch yn arbenigo mewn deall strwythur yr ymennydd dynol, a sut mae'n gweithredu i alluogi canfyddiad, meddwl, emosiwn, iaith ac ymddygiad. Byddwch yn dadansoddi'r hyn sy'n digwydd pan fydd yr ymennydd wedi'i ddiroddi neu â nam arno, e.e. anaf i'r pen, strôc neu glefyd Alzheimer a sut y gellir helpu cleifion o'r fath trwy adferiad. Byddwch yn ymgyswrtu â thechnegau datblygedig megis delweddu cyseiniant magnetig gweithredol (fMRI) a Photensialau Digwyddiad-berthynol (ERPs).

### Pam dewis Bangor?

- Boddhad Myfyrwyr yn 100% (NSS 2020).
- 2ail (allan o 115) am foddhad gyda'r cwrs (*Guardian Good University Guide 2021*).
- Yn yr 20 uchaf am Ymchwil o Ansawdd uchel (*Complete University Guide 2021*).
- Sganiwr MRI, TMS, ERP, EEG a labordy anatomeg yr ymennydd.
- Arbenigedd mewn niwrowyddoniaeth ac amrywiaeth o draethodau hir e.e. sut mae'r ymennydd yn prosesu gwybodaeth o freichiau a choesau prosthetig neu sut mae gweithgaredd yr ymennydd yn amrywio gyda gwahanol ieithoedd.

Weddi achredu gan Gymdeithas Seicolegol Prydain gan roi sylfaen i radddegion ar gyfer aelodaeth siartredig (GBC) sy'n hanfodol ar gyfer dechrau unrhyw yrfa mewn seicoleg.



Cod UCAS  
C801



Tariff Mynediad  
Dynodol:  
112-136



Campws  
Bangor

Blwyddyn Sylfaen  
Oes

Hyd y Cwrs:  
3-4 blynedd


Blwyddyn Lleoliad  
Oes

gyda blwyddyn  
rhyngwladol/  
lleoliad/sylfaen

Blwyddyn Profiad  
Rhyngwladol  
Oes

Opsionau cyfrwng  
Cymraeg  
Oes

Opsionau i ddysgu  
iaith arall  
Oes







# GWYDDORAU IECHYD A MEDDYGOL

Bydd wych ym Mangor!





LLWYBRAU A RHESTRAU CYRSIAU

GWYDDOR BIOFEDDYGOL

BIOLEG FEDDYGOL

GWYDDORAU MEDDYGOL

RADIOGRAFFEG DDIAGNOSTIG

NYRSIO OEDOLION

NYRSIO PLANT

NYRSIO ANABLEDDAU DYSGU

NYRSIO IECHYD MEDDWL

BYDWREIGIAETH


IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL

## MEDDYGAETH: GOGLEDD CYMRU (MBBCH) A102

Mae Prifysgol Bangor, mewn cydweithrediad ag Ysgol Feddygaeth Prifysgol Caerdydd, yn cyflwyno rhaglen feddygaeth 4 blynedd C21 Gogledd Cymru sy'n cynnig mynediad i raddedigion. Mae'r rhaglen lawn yn cael ei chynnal yng ngogledd Cymru gyda lleoliadau ar draws y rhanbarth, a'n nod yw hyfforddi'r meddygon gorau un i Gymru ac i'r Deyrnas Unedig yn ehangach trwy ddarparu addysgu o ansawdd uchel a phrofiad dysgu ysbrydoledig wedi'i seilio ar gynnydd mewn cyswllt clinigol.

Bydd myfyrwyr ar y rhaglen Feddygaeth hon yn dilyn yr un cwricwlwm i raddau helaeth â'r rhai sydd yng Nghaerdydd, ond gan ganolbwyntio mwy ar feddygaeth gymunedol trwy ystod o leoliadau clinigol mewn amgylcheddau amrywiol, gan gynnwys blwyddyn lawn mewn meddygfa meddygaeth teulu, cyfnodau mewn ysbytai addysgu mawr ym mwrdd iechyd mwyaf Cymru, meddygaeth mynydd ac amgylcheddau gwledig.

Mae'r cwrs hwn yn derbyn myfyrwyr o safon uchel o gyrsiau porthi cydnabyddedig sy'n gysylltiedig â Rhaglen Mynediad i Raddedigion Ysgol Feddygaeth Caerdydd, a hefyd fyfyrwyr sydd eisoes wedi'u derbyn ar raglen Meddygaeth A100 Caerdydd sy'n dymuno trosglwyddo ar ôl cwblhau'r flwyddyn gyntaf yn llwyddiannus. Gweler ein gwefan am ragor o fanylion. Gwneir ceisiadau trwy Brifysgol Caerdydd.





## GWYDDOR BIOFEDDYGOL

BSc (Anrh)

### Beth yw natur y cwrs?

Dylunwyd y cwrs hwn mewn cyd-weithrediad â labordai clinigol y GIG a bydd yn rhoi dealltwriaeth i chi o fioleg afiechyd, gan gynnwys cysyniadau a chymwysiadau modern gwyddor biofeddygol wrth ganfod, trin ac ymchwilio i anhwylderau clinigol. Mae galw am raddedigion sydd â phrofiad o'r uwch dechnegau diagnostig a moleciwlaidd sy'n chwyldroi prosesau canfod a thrin afiechyd yn y GIG, y lluoedd arfog, diwydiant, a'r byd ymchwil.

### Pam dewis Bangor?

- Yn y 10 uchaf am Ansawdd Addysgu a Phrofiad Myfyrwyr (*Times Good University Guide 2021*).
- Yn y 10 uchaf am Ragolygon Graddedigion (*Guardian Good University Guide 2021*).
- Yn y 10 uchaf am Ymchwil o Ansawdd Uchel (*Complete University Guide 2021*).
- Cyfleusterau rhagorol: labordai addysgu blaengar, wedi eu cynllunio'n bwrpasol.
- Profiad gwaith mewn labordy patholeg y GIG, wedi ei gynllunio i fodloni gofynion yr HCPC i gofrestru fel gwyddonydd biofeddygol, ar gael ar sail gystadleuol.

### Pynciau Enghreifftiol

Mae'r flwyddyn gyntaf yn ymdrin â bioleg foleciwlaidd a bioleg celloedd, biocemeg, microbiolog, anatomeg ddynol a ffisioleg, therapiwteg a sgiliau labordy. Mae pob gradd yn y gwyddorau meddygol yn cynnwys yr un pynciau yn y flwyddyn gyntaf sy'n rhoi hyblygrwydd i chi newid cwrs os yw eich diddordebau'n newid.

### Blwyddyn 2 a 3

- Microbiolog feddygol
- Biocemeg glinigol
- Patholeg cellog diagnostig
- Imiwnoleg
- Haematoleg a thrallwysio
- Datblygiad cyffuriau
- Bioleg foleciwlaidd
- Pathoffisioleg
- Geneteg feddygol

## BIOLEG FEDDYGOL

BSc (Anrh)

### Beth yw natur y cwrs?

Bioleg Feddygol yw congflaen gofal iechyd a datblygiad cyffuriau ac mae'n pontio rhwng ymchwil sylfaenol a meddygaeth glinigol. Byddwch yn dysgu am achosion cellog a genetig anhwylderau fel canser a chlefydau awtoimiwn gyda phwyslais ar ymchwil cyn-glinigol a thechnegau labordy modern. Byddwch yn elwa o arbenigedd Sefydliad Ymchwil Canser y Gogledd Orllewin. Mae graddedigion yn gweithio ym maes biotechnoleg, datblygu cyffuriau, ymchwil clinigol neu wasanaethau iechyd cyhoeddus.

### Pam dewis Bangor?

- Yn y 5 uchaf am Ansawdd Addysgu a Phrofiad Myfyrwyr (*Times Good University Guide 2021*).
- Yn y 10 uchaf am Ragolygon Graddedigion (*Guardian Good University Guide 2021*).
- Yn y 10 uchaf am Ymchwil o Ansawdd Uchel (*Complete University Guide 2021*).
- Mae ein harbenigedd mewn bioleg feddygol yn cynnwys astudiaethau i ymchwil cylchred celloedd, bioleg canser, niwrobiolog a datblygiad, bioleg celloedd a genom.
- Labordai ymchwil celloedd a moleciwlaidd gyda'r offer gorau a labordai dysgu ymarferol.

### Pynciau Enghreifftiol

Mae'r flwyddyn gyntaf yn ymdrin â bioleg foleciwlaidd a bioleg celloedd, biocemeg, microbiolog, anatomeg ddynol a ffisioleg, therapiwteg a sgiliau labordy. Mae pob gradd yn y gwyddorau meddygol yn astudio'r un pynciau yn y flwyddyn gyntaf sy'n rhoi hyblygrwydd i chi newid cwrs os yw eich diddordebau'n newid.

### Blwyddyn 2 a 3

- Bioleg cell
- Bioleg foleciwlaidd
- Biocemeg
- Biocemeg glinigol
- Geneteg a phatholeg foleciwlaidd
- Imiwnoleg
- Haematoleg a thrallwysio
- Datblygiad cyffuriau
- Geneteg feddygol
- Ymchwil foleciwlaidd labordy

## GWYDDORAU MEDDYGOL

BMedSci (Anrh)

### Beth yw natur y cwrs?

Mae archwilio gweithrediad y corff dynol ym maes gwyddoniaeth feddygol iechyd a chlefydau yn canolbwyntio ar ffisioleg ddynol ac anatomeg, diagnosteg glinigol, clefydau heintus a therapiwteg, yn ddiffygion moleciwlaidd ac yn newidiadau anatomegol. Mae'r radd yn rhoi sgiliau i chi fynd i amrywiaeth o yrfaedd clinigol yn cynnwys cydymaith meddygol, ffisiotherapi a gwyddor barafeddygol. Mae potensial hefyd i gael mynediad i gyrsiau meddygaeth, yn cynnwys gradd MBChC C21 gogledd Cymru yng Nghaerdydd a gyflwynir ym Mangor.

### Pam dewis Bangor?

- Yn y 5 uchaf am Ansawdd Addysgu a Phrofiad Myfyrwyr (*Times Good University Guide 2021*).
- Yn y 10 uchaf am Ragolygon Graddedigion (*Guardian Good University Guide 2021*).
- Yn y 10 uchaf am Ymchwil o Ansawdd Uchel (*Complete University Guide 2021*).
- Mae myfyrwyr yn cael canolbwyntio ar addysg anatomegol, gan gynnwys mynediad i ystafell ddyraniad, sy'n brin i tu allan i ysgolion meddygol.
- Cyfleusterau rhagorol yn cynnwys labordy geneteg, biocemeg a gwyddoniaeth biofeddygol

### Pynciau Enghreifftiol

Mae'r flwyddyn gyntaf yn ymdrin â bioleg foleciwlaidd a bioleg celloedd, biocemeg, microbiolog, anatomeg ddynol a ffisioleg, therapiwteg a sgiliau labordy. Mae pob gradd yn y gwyddorau meddygol yn astudio'r un pynciau ym flwyddyn 1 sy'n rhoi hyblygrwydd i chi newid cwrs os yw eich diddordebau'n newid.

### Blwyddyn 2 a 3

- Anatomeg glinigol a chymhwysol
- Ffisioleg glinigol a chymhwysol
- Patholeg
- Technolegau clinigol
- Microbiolog
- Bioleg foleciwlaidd
- Ffarmacoleg
- Pathoffisioleg
- Ymchwil meddygol, ymarfer a moeseg
- Geneteg feddygol

## RADIOGRAFFEG DDIAGNOSTIG

BSc (Anrh)

### Am beth mae'r cwrs?

Mae radiograffeg ddiagnostig yn gymorth amhrisiadwy i wneud diagnosis o glefyd. Mae radiograffwyr diagnostig yn gyfrifol am gynhyrchu delweddau gan ddefnyddio pelydrau-X a dulliau eraill yn cynnwys uwchsain, tomograffeg gyfrifiadurol (CT), delwedu radioniwclid (RNI) a delwedu cyseiniant magnetig (MRI). Byddwch yn dysgu nid yn unig am sut mae pelydrau-x yn cael eu cynhyrchu ac am anatomeg y corff dynol, ond hefyd sut i siarad â phobl a pha fath o bethau a all fod yn destun pryder i gleifion/defnyddwyr gwasanaeth.

### Pam dewis Bangor?

- 1af am ragolygon graddedigion Radiograffeg (*Times Good University Guide 2021*).
- Yn y 10 uchaf y Deyrnas Unedig am Radiograffeg (*Times Good University Guide 2021*).
- Yn y 5 uchaf am Ymchwil o Ansawdd uchel (*Times Good University Guide 2021*).
- Cyllid ar gael gan y GIG ar hyn o bryd i dalu ffioedd a chyfraniad at gostau byw.
- Mynediad at dechnoleg o'r radd flaenaf gan gynnwys offer efelychu modern a'r system sgiliau ymarferol rhithrealiti trochol gyntaf yn y Deyrnas Unedig.

### Pynciau Enghreifftiol

Themâu sy'n codi dro ar ôl tro ynghylch cymhwyso gwyddor delwedu ac ymarfer a'i rôl ganolog yn y gwasanaeth iechyd modern. Treulio 50% mewn ymarfer clinigol yn archwilio cleifion ochr yn ochr â staff cymwysedig mewn amrywiaeth o leoliadau gyda chyffleoedd i gael profiad o ymarfer dwyieithog.

Bydd y pynciau yn cynnwys:

- Anatomeg a ffisioleg
- Anatomeg radiograffig
- Gwerthuso a dehongli delweddau
- Sgiliau ymarfer radiograffig
- Sgiliau proffesiynol
- Gwerthuso ymarfer
- Gofal cyfannol

Wedi ei hachredu gan yr Institute of Biomedical Science (IBMS).



Cod UCAS  
B102

Blwyddyn Sylfaen  
Oes

Blwyddyn Lleoliad  
Oes

Blwyddyn Profiad  
Rhyngwladol  
Oes



Tariff Mynediad  
Dynodol:  
80-128

Hyd y Cwrs:  
3-4 blynedd  
gyda blwyddyn  
rhyngwladol/  
lleoliad/sylfaen



Campws  
Bangor

Opsiynau cyfrwng  
Cymraeg  
Oes

Opsiynau i ddysgu  
iaith arall  
Oes



Cod UCAS  
B103

Blwyddyn Sylfaen  
Oes

Blwyddyn Lleoliad  
Oes

Blwyddyn Profiad  
Rhyngwladol  
Oes



Tariff Mynediad  
Dynodol:  
80-112

Hyd y Cwrs:  
3-4 blynedd  
gyda blwyddyn  
rhyngwladol/  
lleoliad/sylfaen



Campws  
Bangor

Opsiynau cyfrwng  
Cymraeg  
Oes

Opsiynau i ddysgu  
iaith arall  
Oes



Cod UCAS  
B100

Blwyddyn Sylfaen  
Oes

Blwyddyn Lleoliad  
Oes

Blwyddyn Profiad  
Rhyngwladol  
Oes



Tariff Mynediad  
Dynodol:  
80-128

Hyd y Cwrs:  
3-4 blynedd  
gyda blwyddyn  
rhyngwladol/  
lleoliad/sylfaen



Campws  
Bangor

Opsiynau cyfrwng  
Cymraeg  
Oes

Opsiynau i ddysgu  
iaith arall  
Oes



Cod UCAS  
B821

Blwyddyn Sylfaen  
Nac Oes

Blwyddyn Lleoliad  
Nac Oes

Blwyddyn Profiad  
Rhyngwladol  
Nac Oes



Tariff Mynediad  
Dynodol:  
120

Hyd y Cwrs:  
3 blynedd



Campws  
Wrecsam

Opsiynau cyfrwng  
Cymraeg  
Oes

Opsiynau i ddysgu  
iaith arall  
Nac Oes



## NYRSIO OEDOLION

BN (Anrh)

### Beth yw natur y cwrs?

Mae nyrsys oedolion yn asesu, gwneud diagnosis, cynllunio, gweithredu a gwerthuso gofal sy'n cefnogi adferiad y claf neu eu gallu i fyw cystal â phosibl gyda'u cyflwr. Mae modiwlau damcaniaethol yn rhoi'r wybodaeth a'r sgiliau clinigol i chi ddilyn lleoliadau clinigol yn y gymuned ac mewn ysbytai, ac ennill profiad mewn nifer o wahanol feysydd sy'n gysylltiedig ag oedolion. Mae cyfleoedd gyrfa yn bodoli mewn meysydd gan gynnwys damweiniau ac achosion brys, meysydd meddygol a llawfeddygol arbenigol, gofal dwys, gofal lliniarol a lleoliadau gofal cychwynnol.

### Pam dewis Bangor?

- Yn y 10 uchaf am Yrfaedd (*Guardian Good University Guide 2021*).
- Ymhlith y 15 uchaf am Nyrsio a Bydwreigiaeth (2ail yng Nghymru) (*Times Good University Guide 2021*).
- Yn y 10 uchaf am Ymchwil o Ansawdd uchel (*Complete University Guide 2021*).
- Cyllid ar gael gan y GIG ar hyn o bryd i dalu ffioedd a chyfraniad at gostau byw.
- Gall campysau Bangor a Wrecsam gynnig hyblygrwydd o ran ble y byddwch yn astudio, ac mae lleoliadau clinigol ar gael ar draws gogledd Cymru.

### Pynciau Enghreifftiol

Mae'r cwrs yn 50% astudiaeth ddamcaniaethol a 50% o ymarfer clinigol mewn ysbytai, lleoliadau cymunedol a phreswyl gyda chyfleoedd i gael profiad o ymarfer dwyieithog. Byddwch yn astudio pynciau generig fel anatomeg a ffisioleg, seicoleg, cymdeithaseg, cyfathrebu, adfyfrio, y gyfraith a moeseg gyda myfyrwyr nyrsio ar lwybrau eraill.

Rhai o'r pynciau sy'n benodol i nyrsio oedolion:

- Nyrsio oedolion sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn
- Diogelu oedolion
- Egwyddorion trawsnewid gofal

Weddi achredu gan y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (NMC)



Cod UCAS  
B741



Tariff Mynediad  
Dynodol:  
96-120



Campws  
Bangor neu  
Wrecsam

Blwyddyn Sylfaen  
Nac Oes

Hyd y Cwrs:  
3 blynedd

Opsiynau cyfrwng  
Cymraeg  
Oes

Blwyddyn Lleoliad  
Nac Oes

Opsiynau i ddysgu  
iaith arall  
Nac Oes

Blwyddyn Profiad  
Rhyngwladol  
Nac Oes

## NYRSIO PLANT

BN (Anrh)

### Beth yw natur y cwrs?

Mae nyrsys plant a phobl ifanc yn gofalu am blant a phobl ifanc o bob oedran, o fabanod newydd-anedig hyd at lasoed, sydd ag ystod o anghenion iechyd corfforol, emosiynol a meddyliol. Mae nyrsys plant a phobl ifanc hefyd yn gweithio'n agos gydag aelodau o'r teulu a gofalwyr i leihau'r effaith o fod yn sâl neu yn yr ysbyty. Mae'r cwrs yn cynnwys pynciau nyrsio generig a phynciau sy'n benodol i faes plant mewn amrywiaeth eang o leoliadau gan gynnwys rhai trefol a gwledig, yn y gymuned, unedau gofal arbennig i fabanod, hosbisau ac iechyd meddwl.

### Pam dewis Bangor?

- Yn y 10 uchaf am Yrfaedd (*Guardian Good University Guide 2021*).
- Ymhlith y 15 uchaf am Nyrsio a Bydwreigiaeth (2ail yng Nghymru) (*Times Good University Guide 2021*).
- Yn y 10 uchaf am Ymchwil o Ansawdd uchel (*Complete University Guide 2021*).
- Cyllid ar gael gan y GIG ar hyn o bryd i dalu ffioedd a chyfraniad at gostau byw.
- Gall campysau Bangor a Wrecsam gynnig hyblygrwydd o ran ble y byddwch yn astudio, ac mae lleoliadau clinigol ar gael ar draws gogledd Cymru.

### Pynciau Enghreifftiol

Mae'r cwrs yn 50% astudiaeth ddamcaniaethol a 50% o ymarfer clinigol mewn ysbytai, lleoliadau cymunedol a phreswyl gyda chyfleoedd i gael profiad o ymarfer dwyieithog. Byddwch yn astudio pynciau generig fel anatomeg a ffisioleg, seicoleg, cymdeithaseg, cyfathrebu, adfyfrio, y gyfraith a moeseg gyda myfyrwyr nyrsio ar lwybrau eraill.

Rhai o'r pynciau sy'n benodol i'r cwrs hwn:

- Datblygiad ffisiolegol a seicogymdeithasol
- Gofal lliniarol plant a phobl ifanc
- Cyflyrau tymor hir a rhai sy'n bygwth bywyd plant a phobl ifanc
- Hawliau plant a phobl ifanc

Weddi achredu gan y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (NMC)



Cod UCAS  
B732



Tariff Mynediad  
Dynodol:  
96-120



Campws  
Wrecsam

Blwyddyn Sylfaen  
Nac Oes

Hyd y Cwrs:  
3 blynedd

Opsiynau cyfrwng  
Cymraeg  
Oes

Blwyddyn Lleoliad  
Nac Oes

Opsiynau i ddysgu  
iaith arall  
Nac Oes

Blwyddyn Profiad  
Rhyngwladol  
Nac Oes

## NYRSIO ANABLEDD DYSGU

BN (Anrh)

### Beth yw natur y cwrs?

Mae nyrsio anabledd dysgu yn canolbwyntio ar werth a hawliau'r unigolyn, cyfathrebu effeithiol, ymarfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a defnyddio ymarfer ar sail tystiolaeth i wella iechyd a lles pobl ag anabledd dysgu. Mae nyrsys anabledd dysgu yn ystyried iechyd yn yr ystyr ehangaf bosibl ac yn gweithio mewn ystod o yrfaedd gyda phlant neu oedolion sy'n wynebu heriau iechyd corfforol a meddyliol neu'n byw gydag anableddau dysgu, gan helpu eu cleientiaid i fyw eu bywydau mor llawn ac annibynnol â phosibl.

### Pam dewis Bangor?

- Yn y 10 uchaf am Yrfaedd (*Guardian Good University Guide 2021*).
- Ymhlith y 15 uchaf am Nyrsio a Bydwreigiaeth (2ail yng Nghymru) (*Times Good University Guide 2021*).
- Yn yr 10 uchaf am Ymchwil o Ansawdd uchel (*Complete University Guide 2021*).
- Cyllid ar gael gan y GIG ar hyn o bryd i dalu ffioedd a chyfraniad at gostau byw.
- Gall campysau Bangor a Wrecsam gynnig hyblygrwydd o ran ble y byddwch yn astudio, ac mae lleoliadau clinigol ar gael ar draws gogledd Cymru.

Weddi achredu gan y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth



Cod UCAS  
B763



Tariff Mynediad  
Dynodol:  
96-120



Campws  
Bangor

Blwyddyn Sylfaen  
Nac Oes

Hyd y Cwrs:  
3 blynedd

Opsiynau cyfrwng  
Cymraeg  
Oes

Blwyddyn Lleoliad  
Nac Oes

Opsiynau i ddysgu  
iaith arall  
Nac Oes

Blwyddyn Profiad  
Rhyngwladol  
Nac Oes

## NYRSIO IECHYD MEDDWL

BN (Anrh)

### Beth yw natur y cwrs?

Mae nyrsys iechyd meddwl yn dysgu am weithio gyda phobl o bob oed ag amrywiaeth o broblemau iechyd meddwl mewn gwahanol leoliadau gan roi sylw i'w hiechyd meddwl yn ogystal â'u hanghenion corfforol, cymdeithasol ac ysbrydol. Mae nyrsys iechyd meddwl yn gweithio mewn amrywiaeth o leoliadau sy'n cael ei adlewyrchu yn y cyfleoedd lleoliad clinigol sy'n cynnwys iechyd meddwl plant a phobl ifanc, iechyd meddwl oedolion yn yr ysbyty, carchar a gwasanaethau ffrensing, gwasanaethau therapiwtig camddefnyddio sylweddau a chartrefi nyrsio.

### Pam dewis Bangor?

- Yn y 10 uchaf am Yrfaedd (*Guardian Good University Guide 2021*).
- Ymhlith y 15 uchaf am Nyrsio a Bydwreigiaeth (2ail yng Nghymru) (*Times Good University Guide 2021*).
- Yn yr 10 uchaf am Ymchwil o Ansawdd uchel (*Complete University Guide 2021*).
- Cyllid ar gael gan y GIG ar hyn o bryd i dalu ffioedd a chyfraniad at gostau byw.
- Gall campysau Bangor a Wrecsam gynnig hyblygrwydd o ran ble y byddwch yn astudio, ac mae lleoliadau clinigol ar gael ar draws gogledd Cymru.

Weddi achredu gan y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (NMC)



Cod UCAS  
B762



Tariff Mynediad  
Dynodol:  
96-120



Campws  
Bangor neu  
Wrecsam

Blwyddyn Sylfaen  
Nac Oes

Hyd y Cwrs:  
3 blynedd

Opsiynau cyfrwng  
Cymraeg  
Oes

Blwyddyn Lleoliad  
Nac Oes

Opsiynau i ddysgu  
iaith arall  
Nac Oes

Blwyddyn Profiad  
Rhyngwladol  
Nac Oes



## BYDWREIGIAETH

### BMid (Anrh)

#### Beth yw natur y cwrs?

Swyddogaeth y fydwraig yn hyrwyddo genedigaeth ffisiolegol normal yw prif ffocws y cwrs hwn a Phrifysgol Bangor yw'r unig brifysgol yng Nghymru sydd ag achrediad Baby Friendly Initiative (BFI) UNICEF. Byddwch yn archwilio sut mae'r fydwraig yn ymdrechu i sicrhau iechyd a'r profiad geni gorau posibl i'r fam a'r newydd-anedig i bob menyw a'u teuluoedd ac rydym yn cynnig lleoliadau clinigol mewn amrywiaeth o leoliadau sy'n cynnwys lleoliadau cymunedol, unedau mamolaeth ac unedau dan arweiniad bydwragedd.

#### Pam dewis Bangor?

- 1af yn y Deyrnas Unedig â Boddhad Myfyrwyr o 100% (NSS 2020).
- Yn y 10 uchaf am Yrfaeodd (*Guardian Good University Guide 2021*).
- Yn y 10 uchaf am Ymchwil o Ansawdd uchel (*Complete University Guide 2021*).
- Ymhlith y 15 uchaf am Nyrso a Bydwreigiaeth (2ail yng Nghymru) (*Times Good University Guide 2021*).
- Cyllid ar gael gan y GIG ar hyn o bryd i dalu ffioedd a chyfraniad at gostau byw.

Weddi achredu gan y Cyngor Nyrso a Bydwreigiaeth (NMC)  
Weddi achredu gan Baby Friendly Initiative (BFI) UNICEF y DU

#### Pynciau Enghreifftiol

50% o astudiaeth ddamcaniaethol a 50% wedi'i dreulio ar leoliadau clinigol yn y gymuned ac ysbytai yng ngogledd Cymru. Cyfleoedd i brofi ymarfer dwyieithog yn lleol ac arsylwi ar ddarpariaeth gofal yn rhyngwladol.

Mae'r meysydd astudio yn cynnwys:

- Swyddogaeth Iechyd Cyhoeddus y Fydwaig
- Anatomeg, ffisioleg a seicoleg genedigaeth
- Gofal cymhleth ac argyfyngau obstetreg
- Gofal sy'n canolbwyntio ar y fenyw
- Ymarfer profesiynol

Mae'r cwrs hwn yn cael ei adolygu ar hyn o bryd yn erbyn safonau hyfedredd newydd ar gyfer bydwragedd cofrestredig (2022).

## IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL

### BA (Anrh)

#### Beth yw natur y cwrs?

Mae'r cwrs yn pwysleisio profiadau cymdeithasol iechyd a gofal a rheoli gwasanaethau a sut mae cymdeithas, yr economi, ffactorau gwleidyddol a moesegol yn dylanwadu ar y ddarpariaeth hon. Byddwch yn datblygu dealltwriaeth fanwl o faterion cyfoes allweddol sy'n dylanwadu ar ein hiechyd a'n cymdeithas ac felly ar les unigolion a'u cymunedau. Mae'r cwrs hwn yn berffaith i unrhyw un sydd â diddordeb mewn chwarae rhan flaengar wrth wella'r gofal a roddir i aelodau bregus cymdeithas.

#### Pam dewis Bangor?

- 92% Boddhad Myfyrwyr (NSS 2020).
- Mae'n arwain at yrfaeodd mewn meysydd fel rheoli gwasanaethau iechyd, ymchwil, hybu iechyd a gwaith cymdeithasol a chymunedol yn ogystal â bod yn llwybr amgen i broffesiynau gofal iechyd fel Nyrso.
- Mae'r cynnwys cwrs modern, newydd yn canolbwyntio ar faterion cyfoes allweddol.
- Mae fframwaith gradd hyblyg sy'n cynnig ystod o arbenigeddau yn eich galluogi i addasu eich gradd yn ôl eich anghenion a'ch diddordebau.

#### Pynciau Enghreifftiol

Mae'n cynnig dealltwriaeth fanwl a phrofiad ymarferol o bolisiau, theori ac ymarfer iechyd a gofal cymdeithasol, a'r sgiliau i allu gweithio mewn amgylchedd amlddisgyblaethol.

Mae pynciau cyd-gysylltiedig yn cynnwys:

- Y Gwasanaeth Iechyd Gwladol a'i werth i'r Deyrnas Unedig
- Penderfynyddion cymdeithasol iechyd
- Systemau iechyd a lles byd-eang
- Triniaethau iechyd traddodiadol ac anhraddodiadol
- Iechyd meddwl
- Iechyd cyhoeddus
- Gwaith cymdeithasol
- Hunaniaeth ac amrywiaeth
- Heneiddio a lles



Cod UCAS  
B720

Blwyddyn Sylfaen  
Nac Oes

Blwyddyn Lleoliad  
Nac Oes

Blwyddyn Profiad  
Rhyngwladol  
Nac Oes



Tariff Mynediad  
Dynodol:  
112-120

Hyd y Cwrs:  
3 blynedd



Campws  
Ar y cyd ym  
Mangor a  
Wrecsam

Opsionau cyfrwng  
Cymraeg  
Oes

Opsionau i ddysgu  
iaith arall  
Nac Oes



Cod UCAS  
L510

Blwyddyn Sylfaen  
Nac Oes

Blwyddyn Lleoliad  
Nac Oes

Blwyddyn Profiad  
Rhyngwladol  
Nac Oes



Tariff Mynediad  
Dynodol:  
80-96

Hyd y Cwrs:  
3 blynedd



Campws  
Bangor

Opsionau cyfrwng  
Cymraeg  
Oes

Opsionau i ddysgu  
iaith arall  
Nac Oes







# ADDYSG, ASTUDIAETHAU PLENTYNDOD AC IEUENCTID

Bydd wych ym Mangor!







LLWYBRAU A RHESTRAU CYRSIAU

ASTUDIAETHAU PLENTYNDOD AC IEUENCTID

ASTUDIAETHAU PLENTYNDOD AC IEUENCTID  
A SEICOLEG

ASTUDIAETHAU PLENTYNDOD AC IEUENCTID  
A CHYMDEITHASEG

ADDYSG GYNRADD GYDA SAC  
(STATWS ATHRO CYMWYSEDIG)





## ASTUDIAETHAU PLENTYNDOD AC IEUENCTID

BA (Anrh)

### Beth yw natur y cwrs?

Wrth wraidd y cwrs hwn mae plant a phobl ifanc yr 21ain ganrif fel actorion cymdeithasol: sydd â rhywbeth i'w ddweud, gyda gwytnwch, gyda bywydau cymhleth ac sy'n brofiadol yng nghanol yr holl newidiadau diwyllianol, cymdeithasol, addysgol a gwleidyddol sy'n digwydd yn y byd o'u cwmpas. Mae'n gallu arwain at amrywiaeth eang o yrfaedd yn cynnwys dysgu, gwaith cymdeithasol, cwnsela a'r gyfraith lle gallwch wneud gwahaniaeth gwirioneddol i fywydau pobl ifanc.

### Pam dewis Bangor?

- Boddhad Myfyrwyr 100% (Plentyndod ac Astudiaethau Ieuencid – NSS 2020).
- 5ed am Ragolygon Gyfaol (*Guardian Good University Guide 2021*).
- Lleoliadau gwaith i ddatblygu eich dealltwriaeth o anghenion a datblygiad plant.
- Arbenigedd proffesiynol ac academaidd mewn hawliau plant, cyfraith y teulu, dwyieithrwydd, addysg, gofal cymdeithasol, iechyd meddwl, llythrennedd, anghenion dysgu ychwanegol a chynhwysiant.
- Gallwch astudio eich cwrs cyfan neu ran ohono trwy gyfrwng y Gymraeg.

### Pynciau Enghreifftiol

Byddwch yn edrych ar faterion o dri safbwynt allweddol: cymdeithasegol, addysgol a seicolegol, cyn arbenigo mewn meysydd fel:

- Sgiliau dysgu a gwaith
- Hawliau plant
- Datblygiad plant
- Rhywedd, hil a hunaniaeth
- Iechyd meddwl plant
- Llencyndod
- Camddefnyddio sylweddau
- Plentyndod mewn cyd-destun byd-eang
- Bod yn rhiant
- Anghenion dysgu ychwanegol
- Gweithio gyda theuluoedd bregus
- Plentyndod amlieithog
- Plentyndod a throstedd

## ASTUDIAETHAU PLENTYNDOD AC IEUENCTID A SEICOLEG

BA (Anrh)

### Beth yw natur y cwrs?

Mae'r pynciau hyn yn eich galluogi i astudio'r prosesau cymdeithasol a seicolegol sy'n effeithio ar fywydau plant heddiw. Byddwch yn astudio amrywiaeth eang o bynciau sy'n berthnasol i blentyndod ac ieuencid yn yr 21ain ganrif ac yn ymchwilio i ymddygiad a'r ffactorau biolegol, cymdeithasol ac unigol sy'n effeithio ar seicoleg ddynol. Gall hyn arwain at amrywiaeth eang o yrfaedd yn cynnwys dysgu, gwaith cymdeithasol, cwnsela a'r gyfraith lle byddwch yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i fywydau pobl ifanc.

### Pam dewis Bangor?

- Boddhad Myfyrwyr 100% (Plentyndod ac Astudiaethau Ieuencid – NSS 2020).
- Boddhad Myfyrwyr 96% (NSS 2020).
- Lleoliadau gwaith i ddatblygu eich dealltwriaeth o anghenion a datblygiad plant.
- Arbenigedd academaidd a phroffesiynol mewn hawliau plant, cyfraith y teulu, dwyieithrwydd, addysg, gofal cymdeithasol, iechyd meddwl, llythrennedd, anghenion dysgu ychwanegol a chynhwysiant.

### Pynciau Enghreifftiol

Byddwch yn edrych ar faterion o dri safbwynt allweddol: cymdeithasegol, addysgol a seicolegol, cyn arbenigo mewn meysydd fel:

- Plant a chymdeithas
- Hawliau plant
- Datblygiad plant
- Seicoleg ymddygiad
- Iaith
- Rhywedd, hil a hunaniaeth
- Iechyd meddwl plant
- Llencyndod
- Bod yn rhiant
- Anghenion dysgu ychwanegol
- Seicoleg ddatblygol
- Personoliaeth
- Gweithio gyda theuluoedd bregus
- Plentyndod amlieithog
- Plentyndod a throstedd
- Seicoleg iechyd
- Seicoleg addysg
- Seicoleg fforensig

## ASTUDIAETHAU PLENTYNDOD AC IEUENCTID A CHYMDEITHASEG BA (Anrh)

### Beth yw natur y cwrs?

Mae'r pynciau hyn yn eich galluogi i astudio materion sy'n effeithio ar fywydau plant yng nghyd-destun ehangach strwythurau cymdeithasol. Byddwch yn astudio amrywiaeth eang o bynciau sy'n berthnasol i blentyndod ac ieuencid yn yr 21ain ganrif ac yn ymchwilio i fywyd cymdeithasol a'r ffordd y mae'n dylanwadu ar ein hymddygiad, ein credoau a'n hunaniaeth. Byddwch yn ymdrin â chysylltiadau beunyddiol bywyd bob dydd, sefydliadau cymdeithasol mawr, mudiadau cymdeithasol a phrosesu byd-eang.

### Pam dewis Bangor?

- Boddhad Myfyrwyr 100% (Plentyndod ac Astudiaethau Ieuencid – NSS 2020).
- Modiwl Materion Tai wedi ei ddilysu gan y Sefydliad Tai Siartredig.
- Lleoliadau gwaith i ddatblygu eich dealltwriaeth o anghenion a datblygiad plant.
- Arbenigedd academaidd a phroffesiynol mewn hawliau plant, cyfraith y teulu, dwyieithrwydd, addysg, gofal cymdeithasol, iechyd meddwl, llythrennedd, anghenion dysgu ychwanegol a chynhwysiant.
- Gallwch astudio eich cwrs cyfan neu ran ohono trwy gyfrwng y Gymraeg.

### Pynciau Enghreifftiol

Byddwch yn edrych ar faterion o dri safbwynt allweddol: cymdeithasegol, addysgol a seicolegol, cyn arbenigo mewn meysydd fel:

Mae'r pynciau'n cynnwys:

- Plant a chymdeithas
- Hawliau plant
- Datblygiad plant
- Rhywedd, hil a hunaniaeth
- Iechyd meddwl plant
- Llencyndod
- Bod yn rhiant
- Gweithio gyda theuluoedd bregus
- Plentyndod amlieithog
- Plentyndod a throstedd
- Polisi cymdeithasol
- Troseddeg
- Globaleiddio

## ADDYSG GYNRADD GYDA SAC (STATWS ATHRO CYMWYSEDIG)

BA (Anrh)

### Beth yw natur y cwrs?

Byddwch yn datblygu dealltwriaeth drylwyr o sut mae plant yn dysgu a'r sgiliau sydd eu hangen i ddatblygu i fod yn athro/athrawes arloesol a chreadigol a all wneud gwahaniaeth gwirioneddol i fywydau pobl ifanc. Mae'r lleoliadau ysgol mewn amrywiaeth eang o leoliadau. yn cynnwys ysgolion trefol a gwledig, ysgolion prif ffrwd ac ysgolion arbennig lle cewch gefnogaeth gan staff profiadol i ddysgu sut i baratoi cynlluniau gwaith priodol ac ystyried strategaethau asesu ac adrodd.

### Pam dewis Bangor?

- 5ed am Fodddhad Myfyrwyr (NSS 2020).
- 5ed am Ragolygon Graddedigion (*Guardian Good University Guide 2021*).
- Yn y 10 Uchaf am Ymchwil o Ansawdd Uchel (*Complete University Guide 2021*).
- Rhaglenni a lleoliadau ysgol Saesneg, Cymraeg a dwyieithog.
- Lleoliadau mewn mwy nag un ystod oedran.
- Gellir astudio'r cwrs hwn yn gyfan gwbl trwy gyfrwng y Gymraeg.

Wedi ei achredu gan Gyngor y Gweithlu Addysg yng Nghymru sy'n darparu Statws Athro Cymwysedig.

### Pynciau Enghreifftiol

Byddwch yn dysgu am egwyddorion sylfaenol dysgu ac addysgu a sut mae disgyblion yn dysgu cyn canolbwyntio ar arloesi ac arweinyddiaeth ym maes dysgu ac addysgu ym Mlwyddyn 3. Dyma rai o'r prif elfennau:

- Rheoli dosbarth
- Cynllunio gwersi
- Cefnogi pob dysgwr
- Lleoliadau ysgol
- Astudiaethau pwnc sy'n archwilio'r Cwricwlwm Cenedlaethol newydd i Gymru
- Sgiliau Cymraeg personol a phroffesiynol
- Dealltwriaeth o ddiwylliant Cymru
- Project ymchwil gweithredol mewn ysgol



**Cod UCAS**  
X313 (cyfrwng Saesneg); X314 (cyfrwng Cymraeg)

**Blwyddyn Sylfaen**  
Nac Oes

**Blwyddyn Lleoliad**  
Oes

**Blwyddyn Profiad**  
Rhyngwladol  
Oes



**Tariff Mynediad**  
Dynodol:  
80-120

**Hyd y Cwrs:**  
3-4 blynedd gyda blwyddyn rhyngwladol/ lleoliad



**Campws**  
Bangor

**Opsiynau cyfrwng**  
Cymraeg  
Oes

**Opsiynau i ddysgu**  
iaith arall  
Oes



**Cod UCAS**  
X319

**Blwyddyn Sylfaen**  
Nac Oes

**Blwyddyn Lleoliad**  
Oes

**Blwyddyn Profiad**  
Rhyngwladol  
Oes



**Tariff Mynediad**  
Dynodol:  
80-120

**Hyd y Cwrs:**  
3-4 blynedd gyda blwyddyn rhyngwladol/ lleoliad



**Campws**  
Bangor

**Opsiynau cyfrwng**  
Cymraeg  
Oes

**Opsiynau i ddysgu**  
iaith arall  
Oes



**Cod UCAS**  
X315 (cyfrwng Saesneg); X316 (cyfrwng Cymraeg)

**Blwyddyn Sylfaen**  
Nac Oes

**Blwyddyn Lleoliad**  
Oes

**Blwyddyn Profiad**  
Rhyngwladol  
Oes



**Tariff Mynediad**  
Dynodol:  
80-120

**Hyd y Cwrs:**  
3-4 blynedd gyda blwyddyn rhyngwladol/ lleoliad



**Opsiynau i ddysgu**  
iaith arall  
Oes

**Campws**  
Bangor

**Opsiynau cyfrwng**  
Cymraeg  
Oes



**Cod UCAS**  
X131 (cyfrwng Saesneg); X130 (cyfrwng Cymraeg)

**Blwyddyn Sylfaen**  
Nac Oes

**Blwyddyn Lleoliad**  
Oes

**Blwyddyn Profiad**  
Rhyngwladol  
Oes



**Tariff Mynediad**  
Dynodol:  
96-120

**Hyd y Cwrs:**  
3-4 blynedd gyda blwyddyn rhyngwladol/ lleoliad



**Opsiynau i ddysgu**  
iaith arall  
Oes

**Campws**  
Bangor

**Opsiynau cyfrwng**  
Cymraeg  
Oes





# CYFRIFEG, CYLLID AC ECONOMEŢ

Bydd wych ym Mangor!





LLWYBRAU A RHESTRAU CYRSIAU

CYFRIFEG A CHYLLID\*  
 CYFRIFEG A RHEOLAETH\*  
 BANCIO A CHYLLID  
 ECONOMEG  
 ECONOMEG A CHYLLID

\*Mae'r rhaglen hon yn gymhwyster â phwyblais broffesiynol, ac wedi'i hachredu gan yr holl brif gyrff cyfrifeg gan gynnwys:  
 1. Cymdeithas y Cyfrifwyr Ardystiedig Siartredig (ACCA)  
 2. Safyrdiad Siartredig y Cyfrifwyr Rheoli (CIMA)  
 3. Safyrdiad Cyfrifwyr Siartredig Cymru a Lloegr (ICAEW)  
 4. Safyrdiad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifdyddiaeth (CIPFA)  
 5. The Certified Practising Accountant (CPA) Australia

## CYFRIFEG A CHYLLID

BSc (Anrh)

## Beth yw natur y cwrs?

Bydd y cwrs hwn sydd wedi'i achredu'n broffesiynol yn rhoi i chi'r sgiliau, y wybodaeth a'r hyder sy'n allweddol i yrfa lwyddiannus. Gallai'r radd fynd â chi i fyd deinamig cwmnïau rhyngwladol a marchnadoedd ariannol rhyngwladol. Neu, efallai y byddwch chi'n dewis defnyddio'r sgiliau a'r profiad i weithio yn y sector cyhoeddus neu sefydlu'ch busnes eich hun. Byddwch yn dysgu'r rôl y mae cyfrifyddu yn ei chwarae mewn sefydliadau, a sut i ddefnyddio'r wybodaeth hon i gael effaith wirioneddol ar benderfyniadau rheoli.

## Pam dewis Bangor?

- Eithriadau o arholiadau craidd a gynigir gan gyrff cyfrifeg proffesiynol.
- Ffocws ar faterion a datblygiadau cyfredol mewn marchnadoedd ariannol, cyfrifyddu, cyllid corfforaethol.
- Cyfunir cynnwys academiaidd trylwyr â ffocws ymarferol go iawn sy'n arwain at ragolygon gyrfa rhagorol.
- Ymysg y 10 uchaf yn y Deyrnas Unedig am Foddhad Myfyrwyr (*Complete University Guide 2021*)
- Fe'ch addysgir gan ymchwilywyr ac academyddion blaenllaw sydd wedi gweithio'n broffesiynol yn y diwydiant cyfrifyddu gan ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau.

## Pynciau Enghreifftiol

**Blwyddyn 1**  
 - Cyfrifeg Ariannol a Rheolaeth  
 - Dadansoddi Busnes  
 - Yr Amgylchedd Economaidd  
 - Y Cyd-destun Busnes ar gyfer Ymarfer Cyfrifeg

**Blwyddyn 2**  
 - Adrodd Ariannol  
 - Rheoli Perfformiad  
 - Marchnadoedd Ariannol a Buddsoddi  
 - Systemau Gwybodaeth Gyfrifyddu

**Blwyddyn 3**  
 - Archwilio a Sicrhau  
 - Theori ac Ymarfer Cyfrifeg Uwch  
 - Trethiant  
 - Rheolaeth Ariannol

Bydd y radd hon yn cynnig cyfle i fyfyrwyr ddewis modiwlau dewisol ar bob lefel.

Cod UCAS  
NN4HBlwyddyn Sylfaen  
OesBlwyddyn Lleoliad  
OesBlwyddyn Profiad  
Rhyngwladol  
OesTariff Mynediad  
Dynodol:  
80-120Hyd y Cwrs:  
3-4 blynedd  
gyda blwyddyn  
rhyngwladol/  
lleoliad/sylfaenCampws  
BangorOpsionau cyfrwng  
Cymraeg  
OesOpsionau i ddyysgu  
iaith arall  
Oes



## CYFRIFEG A RHEOLAETH\*

### BSc (Anrh)

#### Beth yw natur y cwrs?

Mae'r cwrs gradd hwn â phwyslais proffesiynol iddo. Gallai'r radd fynd â chi i fyd deinamig cwmnïau rhyngwladol a marchnadoedd ariannol rhyngwladol. Neu, efallai y byddwch chi'n dewis defnyddio'r sgiliau a'r profiad i weithio yn y sector cyhoeddus neu sefydlu'ch busnes eich hun. Gan gydnabod yr amrywiaeth o lwybrau gyrfa sydd ar gael i chi sydd ag arbenigedd cyfrifyddu a sgiliau arwain, mae'r cwrs yn cynnig hyblygrwydd i astudio ystod o bynciau cyflenwol mewn disgyblaethau eraill gan gynnwys bancio, y gyfraith, cynaliadwyedd ac ieithoedd.

#### Pam dewis Bangor?

- Eithriadau o arholiadau craidd a gynigir gan gyrrff cyfrifeg proffesiynol.
- Ffocws ar faterion a datblygiadau cyfredol mewn marchnadoedd ariannol, cyfrifyddu, cyllid corfforaethol.
- Cyfunir cynnwys academaidd trylwyr â ffocws ymarferol go iawn.
- Ymysg y 50 gorau yn y byd am ansawdd uchel ac arbenigedd ym maes Ymchwil Bancio (RePEc).
- Fe'ch addysgir gan ymchwilwyr ac academyddion blaenllaw sydd wedi gweithio'n broffesiynol yn y diwydiant cyfrifyddu gan ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau.

#### Pynciau Enghreifftiol

##### Blwyddyn 1

- Rheolaeth a chyfrifeg ariannol
- Dadansoddi busnes
- Economeg graidd
- Rheoli busnes

##### Blwyddyn 2

- Adrodd ariannol
- Rheolaeth a chyfrifeg rheolaeth
- Systemau gwybodaeth gyfrifyddu
- Llywodraeth gorfforaethol

##### Blwyddyn 3

- Theori ac ymarfer cyfrifeg uwch
- Rheolaeth ariannol
- Rheolaeth strategol
- Entrepreneuriaeth

Bydd y radd hon yn cynnig cyfle i fyfyrwyr ddewis modiwlau dewisol ar bob lefel.

## BANCIO A CHYLLID

### BSc (Anrh)

#### Beth yw natur y cwrs?

